sense
ar gyfer pobl fyddarddall
for deafblind people

Cyrraedd y nod!

Gwybodaeth a syniadau i helpu pobl ifanc â nam amlsynhwyraidd ynghyd â'u teuluoedd i ddeall y broses gynllunio ar gyfer pontio a chwarae rhan lawnach ynddi

Cyngor i Gynghorwyr Gyrfaoedd/gweithwyr proffesiynol eraill

Heather Murdoch ac Eileen Boothroyd

Cymru

Sense yw'r brif elusen genedlaethol sy'n cynorthwyo plant ac oedolion byddarddall ac sy'n ymgyrchu ar eu rhan. Rydym yn darparu gwybodaeth a chyngor arbenigol yn ogystal â gwasanaethau arbenigol i bobl fyddarddall, eu teuluoedd, eu gofalwyr a'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda nhw. At hynny rydym yn cynorthwyo pobl sydd â nam ar eu synhwyrau ynghyd ag anableddau ychwanegol.

Cynnwys

4 Y llyfryn hwn

5 Beth yw pontio?

6 Beth sy'n digwydd yn ystod y cyfnod hwn?

7 Pwy sy'n ymwneud â chynllunio ar gyfer pontio?

9 Beth ddylai'r broses gynllunio ar gyfer pontio fod yn ymdrin ag ef?

12 Meddwl am ddymuniadau eich mab neu'ch merch

14 Meddwl am eich dymuniadau chi

16 Cael gwybod beth yw'r opsiynau

23 Llunio cynllun pontio

26 Rhoi cynlluniau ar waith

27 Llinell amser pontio

29 Proffil pontio

38 Cyswllt â gweithwyr proffesiynol – siartiau cofnodi

40 Adnoddau

---

43 Gwybodaeth ar gyfer Cynghorydd Gyrfaoedd Gyrfa Cymru

49 Cyfarfodydd cynllunio ar gyfer pontio – gofalu eu bod yn gweithio i bobl ifanc sydd â nam amlsynhwyraidd

Y llyfryn hwn

Mae bywydau'r rhan fwyaf o bobl yn cynnwys llawer o gyfnodau pontio – dechrau'r ysgol, symud tŷ, priodi, newid swydd ac ati. Gall cyfnodau o newid fod yn gyfnodau anodd yn aml, ond gall sicrhau bod gennych ddigon o fanylion a gwybod beth rydych am ei weld yn digwydd fod o gymorth mawr.

Bwriad y llyfryn hwn eich arwain drwy'r cyfnod pontio rhwng yr ysgol a'r byd mawr sydd y tu allan iddi. Mae'n ymdrin â phobl ifanc rhwng 14 ac 19 oed neu bobl ifanc hŷn na hynny, pan fyddant wrthi'n cynllunio ac yn camu i'w dyfodol fel oedolion ifanc. Mae'r broses yn arbennig o gymhleth i fyfyrwyr sydd ag anableddau, y mae angen cymorth parhaus arnynt, gan y byddant yn symud o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion.

Mae'r llyfryn hwn wedi'i ysgrifennu ar gyfer rhieni ac aelodau eraill y teulu. Mae'n disgrifio beth sy'n digwydd yn ystod cyfnod pontio ar gyfer pobl ifanc sydd â nam amlsynhwyraidd (pobl ifanc fyddarddall/â nam ar fwy nag un synnwyr) sydd â Datganiadau Anghenion Addysgol Arbennig (AAA). Bwriad y llyfryn yw eich helpu i

- ystyried eich dymuniadau chi a dymuniadau eich mab neu'ch merch;
- cofnodi eich syniadau;
- gweithio gyda gweithwyr proffesiynol i sicrhau bod y cyfnod pontio mor hwylus a llwyddiannus ag sy'n bosibl ar gyfer eich plentyn.

Mae'n cynnwys adran a ysgrifennwyd ar gyfer Cynghorwyr Gyrfaoedd Gyrfa Cymru, sydd â rhan bwysig i'w chwarae yn y broses bontio. Bydd gan Gynghorwyr Gyrfaoedd y nesaf peth i ddim profiad o weithio gyda phobl sydd â nam amlsynhwyraidd, ac mae hynny i'w ddisgwyl.

Mae'r llyfryn hefyd yn rhestru sefydliadau, gwefannau ac adnoddau eraill defnyddiol a allai fod o gymorth i chi.

Beth yw pontio?

Yn y cyd-destun hwn mae pontio'n ymwneud â symud o fod yn blentyn i fod yn oedolyn. Mae'n ymwneud â newidiadau ym mhob agwedd ar fywyd. Bydd pobl ifanc yn eu harddegau'n newid, yn gorfforol ac yn emosiynol; byddant yn symud o'r ysgol i'r coleg neu fyd gwaith; byddant yn dysgu rheoli eu harian a'u bywydau cymdeithasol eu hunain. Efallai y byddant yn gadael cartref, yn cael swydd, yn dod o hyd i bartner ac yn priodi. Bydd rhai o'r newidiadau hyn yn digwydd i bawb (er enghraifft, gadael yr ysgol) ond bydd newidiadau eraill yn ddewisiadau personol.

Mae pontio rhwng bod yn blentyn a bod yn oedolyn yr un mor anodd i bobl ifanc sydd â nam amlsynhwyraidd. Byddant yn wynebu heriau penodol – bydd yn anos iddynt ddatblygu bywydau cymdeithasol annibynnol, er enghraifft. Er hynny bydd y problemau sy'n eu hwynebu'r un fath â'r problemau sy'n wynebu unrhyw berson yn ei arddegau: beth i'w wneud; ble i fyw; sut i gael arian; sut i sicrhau cydbwysedd da rhwng rhyddid a chymorth.

Gall yr arddegau fod yn gyfnod sy'n achosi llawer o straen i deuluoedd, a bydd pob rhiant yn ymwybodol o hynny. Pan fydd gan blentyn anghenion arbennig cymhleth a phan fydd arno angen llawer o ofal o hyd, gall symud o fod yn blentyn i fod yn oedolyn achosi hyd yn oed mwy o straen. Yn ogystal efallai na fyddwch chi'n siŵr beth mae eich mab neu'ch merch am ei wneud ar ôl gadael yr ysgol, neu efallai na fyddwch yn siŵr pa fath o gymorth sydd ar gael i oedolion ag anghenion cymhleth. Efallai y bydd angen i chi helpu i wneud penderfyniadau tyngedfennol ar ran eich mab neu'ch merch ynghylch ei ddyfodol/ei dyfodol, â'r wybodaeth sydd gennych. Bwriad y llyfryn hwn yw eich helpu i feddwl am yr hyn y gallai'r dyfodol ei gynnig a dod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch.

Beth sy'n digwydd yn ystod y cyfnod hwn?

Mewn egwyddor...

Yn y gorffennol roedd disgwyl i oedolion â nam amlsynhwyraidd fodloni ar y gwasanaethau a gâi eu darparu ar gyfer pobl ag anableddau. Roedd y cyfnod pontio'n ymwneud â dod o hyd i'r gwasanaeth gorau a oedd ar gael a'i ariannu. Roedd dewisiadau personol yn aml yn gyfyngedig iawn.

Erbyn hyn mae arfer da wrth gynllunio ar gyfer pontio'n pwysleisio'r angen i gynllunio gan ganolbwyntio ar yr unigolyn. Mae hynny'n golygu adnabod anghenion a dymuniadau'r person ifanc, a datblygu cynllun unigol ar gyfer ei ddyfodol. Ar y dechrau bydd hynny'n cynnwys adolygu ac addasu'r cwricwlwm ysgol, ond bydd hefyd yn ymwneud ag edrych y tu hwnt i'r ysgol a chynllunio ar gyfer yr adeg pan fydd y person ifanc yn oedolyn. Bydd hynny'n golygu ystyried a chynllunio sut i ddefnyddio ystod eang o asiantaethau a gwasanaethau megis gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau iechyd, addysg bellach, tai, hamdden a chyflogaeth. Caiff cyfleusterau cymunedol eu defnyddio pryd bynnag y bo hynny'n bosibl, â chymorth arbenigol. Gall y cymorth hwnnw gael ei ddarparu gan wasanaethau cymdeithasol neu asiantaeth arall. Dylid sicrhau bod y person ifanc a'i deulu'n cael eu cynnwys yn llawn yn y broses.

Yn ymarferol...

Fel yn achos unrhyw system gymhleth, bydd cynllunio ar gyfer pontio'n gweithio'n dda ambell dro ond yn llai effeithiol dro arall. Cafodd llawer o'r strategaethau a'r gweithdrefnau sydd ar waith ar hyn o bryd eu cyflwyno'n ddiweddar iawn, ac mae addasiadau'n cael eu gwneud iddynt o hyd. Mae gweithwyr proffesiynol yn gorfod ymdopi â newidiadau sylweddol felly. Cydnabyddir yn gyffredinol bod gwasanaethau'n cael eu cydlynu'n wael weithiau ac nad yw dymuniadau a phryderon pobl ifanc a'u teuluoedd bob amser yn cael eu trin yn dda.

Pan fydd y broses yn gweithio'n dda, ar y llaw arall, gall pobl ifanc sydd â nam amlsynhwyraidd ddilyn ffordd o fyw y maent wedi'i dewis neu wedi helpu i'w dewis, sy'n diwallu eu hanghenion ac sy'n rhoi cyfleoedd iddynt barhau i ddatblygu eu dyheadau a'u ffordd o fyw. Dylai'r person ifanc sy'n ganolog i'r cynllun gael cyfle i leisio'i farn, a dylid hwyluso hynny.

Cofiwch bob amser eich bod chi, y rhieni, yn adnabod eich plentyn yn well nag unrhyw un arall. Dylai'r sawl sy'n cynllunio ac yn darparu gwasanaethau groesawu eich cyfraniad i'r cyfnod pontio pan fydd eich mab neu'ch merch yn symud o fod yn blentyn i fod yn oedolyn. Os byddwch chi'n teimlo unrhyw bryd nad yw'r broses yn gweithio'n dda, neu fod agweddau ar gynllunio wedi'u hanwybyddu, cofiwch ddweud hynny. Efallai na fydd gweithwyr proffesiynol yn sylweddoli beth sy'n bwysig i chi a'ch teulu nes eich bod yn dweud wrthynt.

Pwy sy'n ymwneud â chynllunio ar gyfer pontio?

Eich mab neu'ch merch yw'r person pwysicaf yn y broses, a dylai chwarae rhan mor llawn ag sy'n bosibl ynddi. Cofiwch ofyn i hynny gael ei hwyluso os oes angen cymorth i gyfathrebu neu gymorth arall.

Chi a gweddill eich teulu yw'r bobl bwysicaf wedyn. Dylai'r broses gynllunio ar gyfer pontio ystyried eich dymuniadau, eich anghenion a'ch galluoedd wrth archwilio'r opsiynau ar gyfer eich mab neu'ch merch.

Bydd **Cynghorwyr Gyrfaoedd** yn gweithio gyda phobl ifanc rhwng 14 ac 16 oed, ond gallant ymwneud â nhw nes eu bod yn cyrraedd eu pen-blwydd yn 19 oed. Bydd eu rôl yn cynnwys

- helpu pobl ifanc i gynllunio'u dyfodol gan ganolbwyntio ar yr unigolyn dan sylw
- gweithio ar y cyd â'r disgybl, y rhieni, yr ysgol, y gwasanaeth gyrfaoedd, gweithwyr proffesiynol ymddiriedolaethau iechyd a gofal cymdeithasol a gweithwyr pontio ym maes iechyd, asiantaethau gwirfoddol ac asiantaethau eraill
- sicrhau y darperir gwybodaeth gynhwysfawr a chydlynus am yr ystod o opsiynau sydd ar gael
- llunio cynllun pontio cydlynus a'i rannu â'r holl weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r person ifanc
- sicrhau bod pob cam gweithredu dilynol angenrheidiol yn cael ei gymryd ar ôl y cyfarfodydd.

Nid yw Cynghorwyr Gyrfaoedd yn arbenigwyr ar nam amlsynhwyraidd, ac efallai mai ychydig o brofiad neu wybodaeth fydd ganddynt mewn perthynas ag anghenion cymhleth. Maent yn arbenigwyr yn y broses gynllunio, a dylai fod modd iddynt weithio gyda chi a'r gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'ch plentyn i ddeall anghenion eich mab neu'ch merch a darparu ar eu cyfer.

Ceir adran ar ddiwedd y llyfryn hwn, y bwriedir iddi gael ei defnyddio gan weithwyr proffesiynol eraill. Efallai y byddwch chi am roi copi i Gynghorydd Gyrfaoedd eich plentyn. Gallech chi awgrymu ei fod yn cysylltu â Sense i gael mwy o wybodaeth hefyd.

Ysgol eich mab neu'ch merch fydd yn dechrau'r broses bontio. Bydd y Pennaeth yn gwahodd Cynghorydd Gyrfaoedd Gyrfa Cymru a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill i'r cyfarfod cynllunio ar gyfer pontio (yr Adolygiad Blynyddol fel rheol) a gynhelir ynghylch eich plentyn ym Mlwyddyn 9. Y Pennaeth sydd hefyd yn gyfrifol am lunio Cynllun Pontio eich plentyn. Bydd staff yr ysgol yn cyfrannu gwybodaeth fanwl am anghenion a galluoedd eich plentyn i'r broses gynllunio, a bydd y drafodaeth yn canolbwyntio ar newidiadau i'r cwricwlwm ysgol yn ogystal â chynlluniau mwy hirdymor ar gyfer symud o fod yn blentyn i fod yn oedolyn.

Bydd adran addysg yr Awdurdod Lleol yn cysylltu â Gyrfa Cymru cyn i'ch plentyn ddechrau ym Mlwyddyn 9. Bydd yr Awdurdod Lleol hefyd yn cynnal Datganiad AAA eich plentyn (a fydd yn cael ei adolygu yn y modd arferol) nes bod eich plentyn yn gadael yr ysgol neu'n cyrraedd ei ben-blwydd yn 19 oed.

Bydd **staff Gwasanaethau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** yn gyfrifol am gynnal Asesiad Gofal Cymunedol i nodi'r cymorth y bydd ar eich plentyn ei angen fel oedolyn. Bydd ganddynt gyfrifoldebau ychwanegol penodol tuag at:

- bobl ifanc sy'n fyddarddall
- pobl ifanc sy'n mynychu ysgolion preswyl
- pobl ifanc sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol.

Gan eich bod yn ofalwyr, bydd gennych chithau hawl i gael asesiad o'ch anghenion personol chi hefyd.

Rhaid gwahodd rhywun o'r Gwasanaethau Cymdeithasol i'r cyfarfod Cynllunio ar gyfer Pontio a gynhelir ym Mlwyddyn 9.

Bydd y rhan a fydd gan **yr Awdurdod Iechyd** i'w chwarae'n dibynnu ar anghenion meddygol unigol – er enghraifft, os bydd angen i'ch plentyn barhau i gael therapi lleferydd neu ffisiotherapi pan fydd yn oedolyn.

Efallai y bydd gan **asiantaethau eraill** ran i'w chwarae'n dibynnu ar amgylchiadau unigol.

Rhoddir rhagor o fanylion am yr hyn y mae pob asiantaeth yn ei gynnig, a sut mae'n ei gynnig, yn yr adran 'Cael gwybod beth yw'r opsiynau'.

Efallai y byddwch chi am gadw rhestr o'r gweithwyr proffesiynol y byddwch chi'n cwrdd â nhw, a chadw cofnod o'ch cyswllt â nhw (yn enwedig sgyrsiau dros y ffôn). Ceir siartiau at y diben hwnnw ar dudalennau 38 a 39.

Beth ddylai'r broses gynllunio ar gyfer pontio fod yn ymdrin ag ef?

Dylai ymdrin â phopeth sy'n gysylltiedig â symud o fod yn blentyn i fod yn oedolyn – er enghraifft:

- annibyniaeth
- perthnasoedd
- tai
- cyflogaeth
- addysg
- arian
- iechyd
- eiriolaeth
- cyfleoedd cymdeithasol a hamdden
- cludiant.

Yn rhy aml o lawer bydd y broses gynllunio ar gyfer pontio mewn perthynas â phobl ifanc sydd â nam amlsynhwyraidd yn canolbwyntio o hyd ar sut y bydd y broses o symud i wasanaethau oedolion yn cael ei rheoli, yn hytrach na'r broses o symud o fod yn blentyn i fod yn oedolyn. Ond o fewn y ffocws hwnnw hyd yn oed, ceir pwyslais cryf yn aml ar gynllunio addysg bellach. Efallai y bydd materion eraill, megis trosglwyddo i wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol oedolion a hawliau o ran budd-daliadau, yn cael eu hanwybyddu.

Dylech chi a'ch mab neu'ch merch fod yn pennu'r agenda ynghylch cynllunio ar gyfer pontio. Byddwch yn barod i ddweud eich dweud os byddwch yn teimlo nad yw'r pynciau sy'n bwysig yn eich barn chi'n cael sylw, neu os byddwch yn teimlo bod rhai meysydd yn cael mwy o sylw nag sydd ei angen arnynt ar draul pynciau eraill.

Gallai'r siart sydd dros y dudalen eich helpu i benderfynu pa feysydd sydd bwysicaf yn eich barn chi. Ni fydd pob un o'r pynciau uchod yn berthnasol i bob person ifanc. Un ffon fesur yw ystyried a allai anghenion arbennig eich plentyn (neu ganfyddiadau pobl eraill ohonynt) fod yn ei gwneud hi'n anos sicrhau canlyniadau mewn unrhyw un o'r meysydd a grybwyllir. Os yw hynny'n wir, bydd angen cynnwys y pwnc yn y broses gynllunio. Efallai y byddwch chi am roi copïau o'r siart a lenwyd i'r gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'ch plentyn, fel bod ganddynt gofnod o'ch blaenoriaethau.

Cynllunio ar gyfer pontio mewn perthynas â

Pwnc	Yn fy marn i mae'r pwnc hwn:			Agweddau penodol yr wyf am i'r cynllun pontio ar gyfer .....**ymdrin â nhw** (rhowch gylch o amgylch y rhai perthnasol ac ychwanegwch unrhyw rai eraill)
	yn bwysig iawn	yn eithaf pwysig	yn eithaf dibwys	
annibyniaeth				diogelwch a risg; mynediad i wybodaeth; byw'n iach; gwneud dewisiadau;
perthnasoedd				cynnal cyfeillgarwch; gwneud ffrindiau newydd; perthnasoedd rhywiol;
tai				byw gyda'r teulu, byw ar ei ben/ei phen ei hun neu gyda phobl eraill; y cymorth sydd ei angen o ran gofal a byw o ddydd i ddydd; preifatrwydd; yr addasiadau a'r offer sydd eu hangen;
cyflogaeth				cyflogaeth â chymorth neu gyflogaeth agored; lleoliadau gwaith; hyfforddiant yn ymwneud â gwaith; y cymorth, y cymhorthion a'r offer sydd eu hangen;
addysg				addysg bellach yn yr ysgol a/neu'r coleg; p'un a yw'r ddarpariaeth yn arbenigol neu'n gyffredinol; p'un a yw'r ddarpariaeth yn ddarpariaeth ddydd neu'n ddarpariaeth breswyl; y cyrsiau sydd o ddiddordeb a'r cymorth sydd ei angen;
arian				cyflogau a/neu hawl o ran budd-daliadau; rheoli arian; y system taliadau uniongyrchol;

Pwnc	Yn fy marn i mae'r pwnc hwn:			Agweddau penodol yr wyf am i'r cynllun pontio ar gyfer .....**ymdrin â nhw** (rhowch gylch o amgylch y rhai perthnasol ac ychwanegwch unrhyw rai eraill)
	yn bwysig iawn	yn eithaf pwysig	yn eithaf dibwys	
iechyd				symud i wasanaethau oedolion; cymorth meddygol a/neu gymorth nyrsio; therapi lleferydd, ffisiotherapi, therapi galwedigaethol; darparu cymhorthion clywed neu weld a chymhorthion eraill; anghenion meddygol sy'n newid;
eiriolaeth				rhieni neu bobl eraill yn eiriolwyr; hunaneiriolaeth; cylchoedd cymorth;
cyfleoedd cymdeithasol a hamdden				gweithgareddau crefyddol neu **d**diwylliannol; chwaraeon; cerddoriaeth; clybiau;
cludiant				y gallu i symud; defnyddio cludiant cyhoeddus; diogelwch ar y ffyrdd;

Llenwyd gan: _____ Dyddiad: _____

Gellir rhoi copïau o'r siart hwn i'r gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r broses gynllunio ar gyfer pontio, er mwyn sicrhau bod y pynciau sy'n bwysig i chi a'ch mab neu'ch merch yn cael sylw.

Meddwl am ddymuniadau eich mab neu'ch merch

Mae'r canllawiau ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r broses gynllunio ar gyfer pontio'n egluro'n bendant iawn y dylai anghenion a dymuniadau'r person ifanc fod wrth wraidd y broses, ac y dylai'r person ifanc gael ei gynnwys wrth wneud penderfyniadau. Mae pobl ifanc sydd â nam amlsynhwyraidd yn wynebu dau anhawster penodol yn hynny o beth:

- maent yn ei chael hi'n anodd meddwl a chyfathrebu ynghylch digwyddiadau sydd y tu hwnt i'w profiad;
- nid oes ganddynt y wybodaeth sydd ei hangen i wneud dewisiadau go iawn.

Caiff rhai ffyrdd o fynd i'r afael â'r problemau hyn eu hamlinellu isod. Ceir fersiwn manylach yn yr adran ar gyfer Cynghorwyr Gyrfaoedd Gyrfa Cymru tua diwedd y llyfryn.

Gwneud dewisiadau gwybodus

Bydd y rhan fwyaf o blant yn dod yn ymwybodol o ystod o yrfaoedd wrth iddynt dyfu. Byddant yn gwybod beth mae eu rhieni'n ei wneud; byddant yn gweld athrawon, staff gwerthu, adeiladwyr a phobl eraill yn gweithio o'u hamgylch; byddant yn gweld pobl yn gwneud amrywiaeth o swyddi ar y teledu. Efallai y bydd gan bobl ifanc sydd â nam amlsynhwyraidd rai syniadau, ond ni fydd ganddynt y math hwn o wybodaeth fanwl bob amser.

Bydd angen i'r rhan fwyaf o bobl ifanc sydd â nam amlsynhwyraidd gael profiad ymarferol o wneud pethau er mwyn dysgu mwy amdanynt. Mae'n debyg y bydd angen ymweliadau mynych â choleg, cartref grŵp, clwb neu leoliad arall ar eich mab neu'ch merch, neu y bydd angen cyfnod prawf mewn lleoliad o'r fath arno/arni cyn y bydd yn medru penderfynu a yw'n ei hoffi ai peidio – ac yn bendant cyn y bydd pobl eraill yn gallu gwneud penderfyniadau ar ei ran/ar ei rhan.

Bydd ymatebion eich plentyn i un lleoliad – yr hyn y mae'n ei hoffi a'r hyn nad yw'n ei hoffi – o gymorth i awgrymu opsiynau posibl eraill.

Mynegi dewisiadau

Bydd y rhan fwyaf o bobl ifanc sydd â nam amlsynhwyraidd yn cyfathrebu'n llawer gwell â phobl y maent yn eu hadnabod ac yn ymddiried ynddynt. Mae'n hollbwysig bod eich plentyn yn trafod y cyfnod pontio â pherson o'r fath – boed hynny drwy iaith lafar, arwyddion, symbolau, ystumiau neu iaith y corff. Efallai y bydd rhai pobl ifanc sydd â nam amlsynhwyraidd yn cyfleu eu dewisiadau neu'n mynegi hoffter yn glir drwy gyfrwng eu hymddygiad mewn gwahanol leoliadau.

Weithiau efallai y bydd pobl ifanc sydd â nam amlsynhwyraidd yn gwneud dewisiadau sy'n ymddangos yn afrealistig. Ceisiwch feddwl pa gymorth a sgiliau y byddai eu hangen ar y person ifanc i wireddu ei ddymuniad. Os oes modd gwireddu ei ddymuniad, dylai gwaith cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gynorthwyo'r person ifanc i wneud hynny.

Anghenion sy'n newid

Bydd gan rai pobl ifanc sydd â nam amlsynhwyraidd anghenion sy'n newid, oherwydd bydd eu hiechyd, eu golwg a/neu'u clyw'n parhau i newid. Er enghraifft, efallai y

bydd pobl ifanc yn eu harddegau sydd â syndrom Usher yn darganfod bod y ffaith bod eu golwg yn waeth yn y nos yn cyfyngu ar eu bywyd cymdeithasol, ar yr union adeg pan fydd eu cyfoedion yn cael mwy o ryddid. Efallai mai'r broses gynllunio ar gyfer pontio fydd y tro cyntaf i'r person ifanc orfod wynebu realiti galluoedd sy'n newid a chynllunio ar gyfer hynny. Efallai y bydd yn ei chael hi'n anodd iawn gwneud hynny. Bydd angen i rieni a gweithwyr proffesiynol barchu'r cyfyngiadau ar allu'r person ifanc i wynebu newid, os bwriedir iddo barhau i fod yn ganolog i'r broses gynllunio.

Efallai y bydd gan bobl ifanc sydd â syndrom Usher, neu anhwylderau eraill sy'n newid, gynlluniau ar gyfer eu gyrfa sy'n ymddangos yn afrealistig i'r oedolion sydd o'u hamgylch. Bydd angen eu hystyried yn ofalus. A yw'r cynllun yn afrealistig mewn gwirionedd? Ychydig iawn o bobl sy'n dilyn yr un yrfa gydol eu hoes erbyn hyn. Meddyliwch o ddifrif am y posibilrwydd o newid cyfeiriad yn nes ymlaen.

Proffiliau neu basportiau

Bydd gan rai pobl ifanc sydd â nam amlsynhwyraidd allu cyfyngedig iawn i gyfathrebu'n ffurfiol ag eraill. Bydd angen i berthnasau, gweithwyr proffesiynol a ffrindiau rannu eu gwybodaeth am y person ifanc er mwyn darganfod beth allai fod yn bwysig iddo pan fydd yn oedolyn. Un ffordd o wneud hynny yw datblygu proffil neu basport pontio. Adroddiad ynghylch hoffterau ac anghenion person yw hwn, a gaiff ei ysgrifennu o safbwynt yr unigolyn dan sylw.

Mae'r enghraifft a geir yma (tudalen 29) yn awgrymu rhai penawdau a allai gael eu cynnwys mewn proffil ar gyfer eich mab neu'ch merch. Gallai'r manylion dan bob pennawd fod ar ffurf geiriau ysgrifenedig, ffotograffau, fideo neu beth bynnag sy'n ymddangos yn fwyaf priodol. Gellir defnyddio'r proffil yn sail i drafodaeth mewn cyfarfodydd cynllunio ar gyfer pontio, yn enwedig os nad yw eich plentyn yn gallu cyfrannu'n uniongyrchol i'r sgwrs. Yn ogystal gellir trosglwyddo'r proffil pan fydd eich mab neu'ch merch yn dechrau ar leoliad newydd, er mwyn helpu'r staff newydd i ddod i'w adnabod/hadnabod yn gynt.

Bydd ysgol eich plentyn fwy na thebyg yn defnyddio dulliau fel hyn yn barod. Mae'n debyg y bydd staff yr ysgol yn gofyn i chi gyfrannu eich gwybodaeth i broffiliau neu basportiau. Os na fyddant yn gwneud hynny, efallai y byddwch chi am awgrymu syniadau neu gadw cofnod gartref y bydd modd ei ddefnyddio gydag eraill wrth gynllunio.

Meddwl am eich dymuniadau chi fel rhieni

Yn aml bydd rhieni mor awyddus i sicrhau bod anghenion eu plant yn cael eu diwallu nes y byddant yn anghofio ystyried eu hanghenion eu hunain. Er y bydd dymuniadau eich plentyn yn ganolog i'r broses gynllunio ar gyfer pontio, rhaid eu hystyried yng nghyd-destun eich anghenion chi hefyd. Efallai y bydd eich plentyn am barhau i fyw gartref a chael gofal gennych chi, er enghraifft, ond efallai na fydd eich iechyd yn caniatáu i hynny ddigwydd.

Mae'n bwysig cydnabod y gall y cyfnod hwn ym mywyd eich plentyn ofyn llawer gennych chi. Gall fod yn anodd o safbwynt emosiynol i unrhyw riant weld ei blentyn yn tyfu'n oedolyn, yn enwedig pan fo angen llawer iawn o ofal a chymorth ar y plentyn hwnnw o hyd. Bydd gofynion newydd arnoch yng nghyswllt gwasanaethau allanol hefyd - systemau cymorth newydd i ddysgu amdanynt a gweithwyr proffesiynol newydd i ymwneud â nhw. Dylai'r gweithwyr proffesiynol y byddwch yn cwrdd â nhw fod yn sensitif i'r materion hyn, a dylent gynnig cymorth pan fo hynny'n briodol.

Dylid trafod ac ystyried bob amser a allai eich plentyn symud allan o'ch cartref. O gael y cymorth cywir, gall pob person ifanc fwynhau ffordd newydd o fyw, datblygu sgiliau a diddordebau newydd a chwrdd â phobl newydd. Mae'r cyfan yn rhan o'r broses o dyfu'n oedolyn. Gellir sicrhau mwy o annibyniaeth mewn sawl ffordd, a nawr yw'r adeg i ddechrau meddwl am y darlun ehangach a'r dyfodol tymor hwy ar gyfer eich teulu cyfan. Gall hynny fod yn anodd i bawb, ond gall cynllunio nawr sicrhau tawelwch meddwl yn nes ymlaen.

Gwneud y trefniadau ariannol cywir wrth i chi fynd yn hŷn yw un o'r materion y bydd rhieni'n poeni fwyaf yn ei gylch. Nid oes modd cynnig un ateb cywir, oherwydd bydd gan bob teulu ofynion gwahanol.

Yn fwyfwy aml bydd teuluoedd ag aelod ifanc sy'n methu ymdrin â'i faterion ariannol a chyfreithiol ei hun yn dewis sefydlu Ymddiriedolaeth mewn ewyllys. Nod hynny yw gwarchod buddiannau'r person hwnnw pe bai unrhyw beth yn digwydd i chi. Gall cynnwys Ymddiriedolaeth sydd wedi'i threfnu'n iawn yn eich ewyllys wneud gwahaniaeth parhaol i ansawdd bywyd eich mab neu'ch merch. Wrth gymryd y cam hwn gall eich asedau helpu i warantu parhad a sicrwydd o ran gofal a darparu hefyd ar gyfer rhai o'r pethau ychwanegol, megis gwyliau ac offer, y byddech am iddynt fod ar gael iddo/iddi'n hawdd. (Gweler yr adran 'Adnoddau' ar dudalen 40.)

Gallai fod yn ddefnyddiol i chi siarad â rhieni eraill sydd â phlant ychydig yn hŷn efallai. Cysylltwch â Sense os hoffech gael help i wneud hynny. Efallai y byddwch chi hefyd am gael cymorth o ran eiriolaeth – gweler yr adran 'Adnoddau' am restr o sefydliadau a fyddai'n barod i'ch helpu.

Beth yw eich dyheadau a'ch gobeithion ar gyfer eich plentyn wrth iddo dyfu'n oedolyn? Ceisiwch beidio â gadael i'ch meddyliau gael eu cyfyngu i'r ddarpariaeth yr ydych yn gwybod ei bod ar gael. Ceisiwch feddwl am yr help yr ydych chi ac y mae eich plentyn yn ei gael nawr, a cheisiwch feddwl am yr hyn ddylai barhau a'r hyn ddylai newid. Ceisiwch ddisgrifio eich gobeithion yn fanwl – po gliriaf fydd eich gweledigaeth ynghylch y dyfodol, po hawsaf fydd hi i chi ei hegluro i bobl eraill.

Rhieni…

Gallech chi ddefnyddio'r siart isod i restru'r pethau yr ydych am iddynt ddigwydd a'r wybodaeth a'r cymorth y mae arnoch eu hangen gan bobl eraill. Gallai fod yn ddefnyddiol i chi roi copi ohono i'r gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â helpu eich teulu, fel eu bod yn gwybod pa fath o help yr ydych yn dymuno'i gael.

Beth rwyf am i ..... ei gael pan fydd yn oedolyn	Unrhyw wybodaeth bellach sydd ei hangen am hynny	Y cymorth sydd ei angen er mwyn sicrhau bod hynny'n digwydd

Cael gwybod beth yw'r opsiynau *a* llunio cynllun pontio

Mae cynllunio ar gyfer pontio'n broses faith, a bydd yn dechrau pan fydd person ifanc yn 14 oed ac yn parhau nes ei fod yn o leiaf 19 oed (gweler yr adran 'Llinell amser pontio' ar dudalen 27 i gael braslun o beth sy'n digwydd pryd). Dylai hynny ganiatáu digon o amser i archwilio'r holl opsiynau sydd ar gael, gwneud dewisiadau gwybodus a pharatoi'r person ifanc ar gyfer newid. Bydd hefyd yn fodd i osgoi unrhyw oedi yn y broses.

Bydd Cynghorwyr Gyrfaoedd Gyrfa Cymru yn gyfrifol am

- gydlynu asesiadau
- cysylltu ag asiantaethau eraill
- goruchwylio'r modd y caiff y Cynllun Pontio ei weithredu (y rhaglen weithredu sy'n ymwneud â phontio).

Gallant gyfeirio'r person ifanc at gynghorwyr arbenigol megis staff Sense, er mwyn cael asesiad a chyngor.

Casglu gwybodaeth

Dylech chi gael gwybodaeth am bob agwedd ar y broses bontio. Yn ymarferol bydd llawer o rieni wedi gofyn am wybodaeth ar eu cyfer eu hunain, gan gysylltu'n uniongyrchol ag asiantaethau ac unigolion. Efallai y byddwch chi am gysylltu â'ch swyddfa Sense Cymru i gael gwybod am y ddarpariaeth leol a ddefnyddir gan bobl eraill sydd â nam amlsynhwyraidd. Nid oes rhaid i chi ddewis yr un opsiynau ar gyfer eich plentyn, ond bydd yn sylfaen i chi allu cymharu gwasanaethau eraill.

Mae llawer o rieni wedi gweld bod siarad â rhieni eraill am bontio, a pherthyn i sefydliadau megis Sense, yn ddefnyddiol iawn. Dylai gwybodaeth am ffynonellau eraill o help a chyngor fod ar gael gan ysgol eich plentyn, yr Awdurdod Lleol, y Gwasanaeth Partneriaeth Rhieni neu Gyrfa Cymru.

Mae'n ddefnyddiol cadw nodiadau, sy'n cynnwys dyddiadau, ynghylch eich sgyrsiau a'ch galwadau ffôn â darparwyr gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol eraill. Ar adegau prysur bydd dyddiadur o gymorth i chi gofnodi'r hyn y mae pobl yn ei wneud. Bydd hefyd yn fodd i ddarparu cofnod o ddigwyddiadau. Ceir siart at y diben hwn ar dudalen 39.

Gwasanaethau ar gyfer oedolion ifanc sydd â nam amlsynhwyraidd

Y prif asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau i oedolion ag anableddau yw'r canlynol:

- Awdurdodau Lleol, gan gynnwys adrannau addysg a gofal cymdeithasol
- darparwyr Addysg Bellach ac Uwch
- Ymddiriedolaethau Iechyd
- Gwasanaeth Cyflogaeth
- y sector gwirfoddol
- Gyrfa Cymru.

Mae'n debyg y bydd oedolion ifanc sydd â nam amlsynhwyraidd yn cael gwasanaethau gan bron pob un o'r asiantaethau hyn. Mewn theori dylai gwahanol asiantaethau gydlynu eu cyfraniad. Yn ymarferol caiff hynny ei wneud yn anos gan wahanol strwythurau, asesiadau a meini prawf ar gyfer darparu gwasanaethau.

Mae rhai o'r asiantaethau a restrir uchod yn darparu mwy nag un gwasanaeth, a chaiff rhai gwasanaethau eu darparu gan fwy nag un asiantaeth. Trefnir gweddill yr adran hon fesul math o wasanaethau: gwasanaethau cymdeithasol, addysg, iechyd, budd-daliadau, tai a chyflogaeth.

Cwestiynau i'w gofyn i Gynghorydd Gyrfaoedd eich plentyn:

- **Pwy fydd yn cydlynu gwasanaethau ar gyfer eich plentyn?**
- **A yw'r person hwnnw'n deall anghenion penodol pobl sydd â nam amlsynhwyraidd?**

Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Rhaid i weithiwr cymdeithasol fod yn bresennol yn y cyfarfod Cynllunio ar gyfer Pontio a gynhelir ynghylch eich mab neu'ch merch, oherwydd bydd eich mab neu'ch merch yn gymwys i gael **Asesiad Gofal Cymunedol**. Bydd yr asesiad hwnnw'n nodi pa wasanaethau os o gwbl y bydd arno/arni eu hangen pan fydd yn oedolyn.

Mae gan ofalwyr hawl i gael asesiad ar wahân o'u hanghenion eu hunain, a allai arwain at gael gwasanaethau eraill.

Gall yr Ymddiriedolaeth leol ddarparu **gwasanaethau gofal**, neu gall y person ifanc neu'i deulu drefnu'r gwasanaethau gan ddefnyddio'r arian a geir o **daliadau uniongyrchol**. Rhaid gwario'r arian a geir o daliadau uniongyrchol ar gymorth i ddiwallu anghenion a aseswyd. Gellir defnyddio taliadau uniongyrchol ar gyfer llawer o wahanol fathau o gymorth – er enghraifft, cymorth unigol i allu manteisio ar gyfleusterau hamdden neu gyrsiau coleg, gwyliau byr neu gymorth yn ymwneud â thai – ond ni ellir eu defnyddio ar gyfer gofal preswyl.

Bydd y gwasanaethau gofal neu'r taliadau uniongyrchol a ddarperir yn dibynnu ar lefelau angen a aseswyd a'r man lle bydd y person ifanc yn byw. Efallai na fydd y gwasanaethau'n rhai llawn-amser. Dylent bwysleisio'r angen i baratoi ar gyfer cyflogaeth neu ddysgu gydol oes, a dylent gael eu cynllunio'n unigol ar sail dymuniadau'r person ifanc. Gallai ffactorau allanol, megis prinder staff cymwys, gyfyngu'r opsiynau.

Mae gan adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol ddyletswyddau eraill at bobl fyddarddall, dan y cylchlythyr i Awdurdodau Lleol sy'n dwyn y teitl "Gofal cymdeithasol am blant ac oedolion sy'n fyddar a dall". (Dim ond i bobl â nam ar ddau synnwyr y mae'r canllawiau hynny'n berthnasol, ac nid ydynt yn berthnasol i bobl sydd â nam ar eu clyw neu'u golwg ynghyd ag anableddau eraill.) Rhaid i Awdurdodau Lleol adnabod pobl fyddarddall, cysylltu â nhw a'u hasesu, a darparu gwasanaethau priodol os oes angen, gan gynnwys gweithwyr cymorth un i un sydd wedi cael hyfforddiant penodol. Rhaid i'r asesiad o anghenion gael ei gynnal gan bobl sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig i ymdrin â dallineb-byddardod. Mae'r canllawiau'n berthnasol i blant yn ogystal ag oedolion, ond os nad yw eich mab neu'ch merch wedi cael asesiad dan y canllawiau yn y gorffennol, efallai y byddwch chi am ddechrau'r broses yn ystod y cyfnod pontio. (I gael rhagor o fanylion, ewch i wefan Sense: www.sense.org.uk.)

Gallai Awdurdodau Lleol **godi tâl am unrhyw wasanaethau a ddarperir**. Mae canllawiau'r llywodraeth yn nodi pa incwm y gallant ac na allant ei ystyried wrth benderfynu faint o dâl i'w godi. Yn gyffredinol rhaid iddynt sicrhau bod gan yr unigolyn ddigon o incwm yn weddill i ddiwallu ei anghenion sylfaenol a thalu'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag anabledd.

Mae gan adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol gyfrifoldebau arbennig tuag at **bobl ifanc sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol** a **phobl ifanc sy'n mynychu ysgolion preswyl**. Rhaid i weithwyr cymdeithasol gadw mewn cysylltiad â phobl ifanc sydd wedi derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol a rhaid iddynt barhau i roi cymorth iddynt. Rhaid i'r Bwrdd gysylltu â phob asiantaeth er mwyn sicrhau bod y broses bontio'n mynd rhagddi'n esmwyth.

Cwestiynau i'w gofyn i weithiwr cymdeithasol (neu Gynghorydd Gyrfaoedd) eich plentyn:

- **Pryd bydd Asesiad Gofal Cymunedol eich plentyn yn digwydd?**
- **Pa weithwyr proffesiynol fydd yn cynnal yr asesiad? A ydynt yn deall anghenion penodol pobl sydd â nam amlsynhwyraidd?**
- **(Os ydych yn dymuno:) Pryd gallan nhw drefnu asesiad o'ch anghenion chi fel gofalwr?**
- **(Dan y Canllawiau ar Ddallineb-byddardod:) Pryd gallan nhw drefnu asesiad eich plentyn yn unol â'r cylchlythyr 'Gofal Cymdeithasol am Blant ac Oedolion'?**
- **Pwy fydd yn cynnal yr asesiad? Pa hyfforddiant y bydd y sawl dan sylw wedi'i gael ynghylch nam amlsynhwyraidd?**

Addysg

Mae pobl sydd â nam amlsynhwyraidd yn tueddu i ddysgu'n araf ac yn tueddu i fod â bylchau yn eu gwybodaeth, oherwydd mae nam amlsynhwyraidd yn cyfyngu'r wybodaeth y maent yn ei chael. Oherwydd hynny bydd y rhan fwyaf o bobl ifanc sydd â nam amlsynhwyraidd yn cael budd o barhau â'u haddysg ar ôl yr oedran cynharaf ar gyfer gadael yr ysgol.

Gall pobl ifanc sydd â nam amlsynhwyraidd:

- aros yn eu hysgol bresennol os yw'n cynnig darpariaeth ôl-16;
- symud i ysgol wahanol neu goleg;
- mynd i goleg ar ôl cyfnod estynedig yn yr ysgol.

Os byddant yn parhau â'u haddysg mewn ysgol:

- bydd eu Datganiad AAA, a fydd yn destun adolygiadau fel arfer, yn cael ei gynnal nes eu bod yn 19 oed.

Os bydd y person ifanc yn gadael yr ysgol ac yn mynd i goleg:

- bydd ei Ddatganiad AAA yn dod i ben. Bydd y coleg y mae'n ei fynychu'n gyfrifol am ddiwallu ei anghenion addysgol arbennig.

Bydd Cynghorydd Gyrfaoedd Gyrfa Cymru'n gyfrifol am ddatblygu proffil asesu ar gyfer eich mab neu'ch merch (gelwir y proffil yn **Gynllun Dysgu a Sgiliau** weithiau). Caiff y proffil hwn ei lunio yn ystod blwyddyn olaf eich plentyn yn yr ysgol. Bydd yn canolbwyntio ar sut y gallai anghenion arbennig y person ifanc effeithio ar ei ddysgu a'i gyfnod pontio rhwng bod yn blentyn

a bod yn oedolyn. Dylai'r asesiad ddigwydd dros gyfnod o amser, a bwriedir iddo esgor ar **Gynllun Symud Ymlaen** sy'n nodi sut y gellir goresgyn unrhyw rwystrau i lwyddiant.

Mae angen arbenigedd sylweddol i asesu person ifanc sydd â nam amlsynhwyraidd. Nid y Cynghorydd Gyrfaoedd fydd y person priodol i gynnal yr asesiad yn uniongyrchol. Bydd angen i'r Cynghorydd gysylltu ag arbenigwyr ar nam amlsynhwyraidd, naill ai o wasanaethau statudol neu'r sector gwirfoddol.

Caiff **lleoedd mewn colegau** eu hariannu drwy'r **Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS)**.

- Mae mwyafrif y lleoedd mewn colegau 'prif-ffrwd' lleol, naill ai ar gyrsiau agored neu gyrsiau y bwriedir iddynt ddiwallu anghenion arbennig penodol (er enghraifft, sgiliau bywyd).
- Mae APADGOS hefyd yn ariannu lleoedd preswyl mewn colegau arbenigol, os caiff ei hargyhoeddi bod hynny'n angenrheidiol.

Fel rheol mae **colegau arbenigol** yn golegau preswyl sy'n eithaf pell o gartref y person ifanc. Mae llawer ohonynt, ond nid pob un, yn perthyn i NATSPEC (gweler yr adran 'Adnoddau'). Bydd Cynghorydd Gyrfaoedd Gyrfa Cymru eich mab neu'ch merch yn gallu egluro sut i ofyn am arian i dalu am le mewn coleg arbenigol. Ni fydd APADGOS yn fodlon ariannu lle o'r fath oni bai y bernir mai dyna yw'r ffordd fwyaf priodol o ddiwallu anghenion person ifanc.

Mae'r **Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd** yn mynnu bod colegau a phrifysgolion yn gwneud **addasiadau rhesymol** i ddiwallu anghenion myfyrwyr sydd ag anableddau. Gallai'r addasiadau hynny gynnwys, er enghraifft:

- newid trefniadau addysgu
- hyfforddi staff
- darparu gwasanaethau cyfathrebu a gwasanaethau cymorth.

Gall y coleg ystyried ffactorau megis cost a'r angen i gynnal safonau wrth benderfynu a yw addasiad yn rhesymol ai peidio. Gall Skill (y Biwro Cenedlaethol i Fyfyrwyr ag Anableddau – gweler yr adran 'Adnoddau') gynnig help pellach, yn ogystal â chyrff megis yr RNID a'r RNIB.

Cwestiynau i'w gofyn i Gynghorydd Gyrfaoedd eich plentyn:

- **Beth yw'r opsiynau lleol ar gyfer addysg ôl-16?**
- **Pa ddarpariaeth ysgol ôl-16 sydd ar gael yn eich ardal?**
- **Pa brofiad ac arbenigedd sydd gan golegau lleol mewn perthynas ag anghenion cymhleth a nam amlsynhwyraidd? Pa gyrsiau perthnasol y maent yn eu cynnig?**
- **Pa leoliadau a allai fod ar gael mewn colegau arbenigol, a beth maent yn ei gynnig?**
- **Pwy fydd yn ymwneud â Chynllun Dysgu a Sgiliau eich plentyn?**
- **Pa hyfforddiant a phrofiad sydd gan y bobl hynny mewn perthynas â nam amlsynhwyraidd?**

Gwasanaethau iechyd

Mae gwasanaethau iechyd ar gyfer plant ag anableddau'n gweithio'n wahanol i wasanaethau iechyd ar gyfer oedolion. Fel rheol bydd tîm datblygu plant lleol yn gofalu am blant sydd â nam amlsynhwyraidd, ac efallai y bydd ganddo gysylltiadau hefyd â meddygon ymgynghorol sydd ag arbenigedd penodol mewn ysbytai. Efallai y bydd Datganiad y plentyn yn nodi manylion anghenion o ran therapi, boed yn anghenion addysgol neu'n anghenion nad ydynt yn addysgol. Caiff therapi lleferydd ac iaith yn enwedig ei ystyried fel rheol yn angen addysgol. Mae'r gyfraith yn mynnu bod Awdurdodau Addysg Lleol yn darparu therapi a gaiff ei nodi'n ddarpariaeth addysgol.

Bydd pobl ifanc sydd â nam amlsynhwyraidd yn symud i wasanaethau iechyd oedolion pan fyddant yn 18 oed. Fel rheol caiff **gwasanaethau oedolion** eu darparu drwy **dîm cymunedol** lleol **sy'n cynorthwyo oedolion ag anableddau dysgu**. Nid yw mynediad **i therapïau a chymorth arbenigol arall** yn parhau'n awtomatig pan fydd plentyn yn dod yn oedolyn.

Dylai'r gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n ymwneud â'ch mab neu'ch merch ddarparu cyngor ysgrifenedig ar gyfer y Cynllun Pontio a mynychu'r cyfarfod cynllunio cyntaf ar gyfer pontio. Dylent drafod **symud i wasanaethau iechyd oedolion** – gan gynnwys prosesau cyfeirio at wasanaethau arbenigol – â chi, eich mab neu'ch merch, a Meddyg Teulu eich plentyn. Efallai y bydd angen trosglwyddo cofnodion eich mab neu'ch merch hefyd.

Yn ystod blwyddyn olaf eich mab neu'ch merch yn yr ysgol, bydd yn cael **Archwiliad Iechyd Gadael Ysgol**, a dylid llunio **Cynllun Gweithredu Iechyd**. Cynlluniau unigol ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu yw Cynlluniau Gweithredu Iechyd. Maent yn nodi unrhyw anghenion o ran iechyd ac yn rhoi manylion ynghylch sut y byddant yn cael eu diwallu. Mae pobl ifanc sydd wedi cyrraedd cyfnod pontio'n grŵp y mae rhoi Cynlluniau Gweithredu Iechyd iddynt yn flaenoriaeth.

Mae'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd yn berthnasol i'r GIG fel y mae'n berthnasol i ddarparwyr eraill nwyddau neu wasanaethau. Ni ddylai pobl ag anableddau gael eu trin yn llai ffafriol na phobl heb anableddau. Felly, er enghraifft, dylai ysbyty geisio darparu dehonglydd Iaith Arwyddion Prydain/cyfieithydd ar gyfer apwyntiad meddygol os oes angen.

Cwestiynau i'w gofyn i Feddyg Teulu (neu Gynghorydd Gyrfaoedd) eich plentyn:

- **Pwy fydd yn cydlynu gwasanaethau iechyd eich mab neu'ch merch pan fydd yn oedolyn?**
- **Sut y bydd y broses o symud i wasanaethau iechyd oedolion yn cael ei threfnu? Holwch ynghylch pob gwasanaeth y mae eich plentyn yn ei gael.**
- **Sut y bwriedir sicrhau parhad o ran gofal mewn perthynas â therapi lleferydd ac iaith, ffisiotherapi neu wasanaethau arbenigol eraill y mae eich plentyn yn eu cael?**

Budd-daliadau

Bydd **hawliau o ran budd-daliadau** yn newid pan fydd plentyn yn cyrraedd ei ben-blwydd yn 16 oed. Gall pobl ifanc gael budd-daliadau yn eu henw eu hunain pan fyddant yn cyrraedd yr oedran hwnnw. Efallai y bydd ganddynt hawl i gael

- Budd-dal Analluogrwydd (os nad ydynt yn medru gweithio)
- Credyd Treth i Bobl Anabl (os ydynt yn gweithio)
- Cymorth Incwm.

Efallai y bydd angen adnewyddu hawliadau am **Lwfans Byw i'r Anabl**.

Gall pobl ifanc 16 oed neu drosodd gael taliadau uniongyrchol (yn lle gwasanaethau gofal gan Wasanaethau Cymdeithasol) yn eu henw eu hunain. Nid oes angen iddynt wneud hynny: gall Gwasanaethau Cymdeithasol ddarparu gofal yn uniongyrchol, neu gall rhieni'r person ifanc gael taliadau uniongyrchol. Efallai y bydd gwahanol agweddau ar ofal unigolyn yn cael eu hariannu drwy bob un o'r sianelau hyn.

Mae rhagor o wybodaeth am fudd-daliadau ar gael gan y Gynghrair Anabledd (gweler yr adran 'Adnoddau').

Cwestiynau i'w gofyn i weithiwr cymdeithasol (neu Gynghorydd Gyrfaoedd) eich plentyn:

- **Pa fudd-daliadau y bydd gan eich plentyn hawl i'w cael pan fydd yn 16 oed? Sut y dylid hawlio'r budd-daliadau hynny?**

Tai

Efallai y bydd eich mab neu'ch merch yn parhau i fyw gartref, yn dychwelyd i fyw gartref neu'n symud i fyw yn rhywle arall. Dylai'r broses gynllunio ar gyfer pontio gynnwys opsiynau ar gyfer y dyfodol o ran lle i fyw, ac unrhyw gymorth neu hyfforddiant sydd ei angen i wneud i'r opsiynau hynny weithio. Bydd opsiynau o ran tai hefyd yn cael sylw yn yr asesiad gofal a gynhelir gan y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae nam amlsynhwyraidd yn creu ystod eang o anghenion, a bydd rhai pobl ifanc yn byw'n annibynnol tra bydd angen cymorth llawn ar bobl ifanc eraill.

Gall pobl ifanc ymuno â'r **gofrestr dai** leol pan fyddant yn 17 oed. Yn ogystal bydd yr adran dai'n sôn wrthych am **gymdeithasau** tai lleol a allai helpu.

Os bydd eich mab neu'ch merch yn penderfynu byw gartref ac os byddwch chi'n hapus â'r dewis hwnnw, dylid mynd ati cyn gynted ag sy'n bosibl i nodi'r cymorth sydd ei angen. Gallai'r cymorth hwnnw gynnwys

- cymorth gan weithwyr gofal cymdeithasol
- gwasanaethau dydd
- gofal seibiant
- addasiadau i'r tŷ neu'r fflat
- offer
- cymorth a chyngor parhaus gan arbenigwyr megis therapyddion galwedigaethol a gweithwyr ailsefydlu.

Gall gofal preswyl fod mewn

- llety â chymorth i unigolyn
- cartref bach gyda phobl eraill
- cartref preswyl mwy o faint.

Gellir ei ddarparu'n agos i'ch cartref, neu ymhellach i ffwrdd os yw'r ddarpariaeth yn arbenigo mewn nam amlsynhwyraidd. Bydd lefel y cymorth a ddarperir yn dibynnu ar angen, a bydd pwyslais ar fod yn rhan o'r gymuned leol.

Cwestiynau i'w gofyn i weithiwr cymdeithasol (neu Gynghorydd Gyrfaoedd) eich plentyn:

- **Beth yw'r opsiynau lleol o ran tai ar gyfer pobl ifanc sydd â nam amlsynhwyraidd?**
- **Pa ddarpariaeth breswyl arbenigol a allai ddiwallu anghenion eich plentyn?**

Cyflogaeth

Mae sicrhau cyfleoedd gwell o ran cyflogaeth i oedolion ag anableddau dysgu ac anableddau eraill yn un o nodau'r llywodraeth. Fodd bynnag, mae'n deg dweud bod mynediad i gyflogaeth ar hyn o bryd ymhell y tu ôl i fynediad i addysg bellach.

Bydd angen llawer iawn o gymorth i weithio ar fwyafrif y bobl ifanc sydd â nam amlsynhwyraidd. Ni fydd gwaith cyflogedig yn nod priodol i bawb. Gall **Gyrfa Cymru** roi cyngor ynghylch swyddi posibl, er ei bod yn debygol y bydd angen i'r sefydliad gysylltu ag arbenigwyr ar nam amlsynhwyraidd (arbenigwyr o Sense neu fudiad gwirfoddol arall fwy na thebyg). Gellir cysylltu â **Chynghorwyr Cyflogaeth i Bobl Anabl** yn y Ganolfan Waith/Swyddfa Swyddi a Buddaliadau.

Efallai y bydd pobl ifanc sydd â syndrom Usher yn wynebu anawsterau penodol wrth ddewis gyrfa, oherwydd anghenion sy'n newid mewn perthynas â'u golwg. Yn ogystal efallai y byddant yn ei chael hi'n anodd meddwl am adeg pan fydd eu golwg yn fwy cyfyngedig, ac efallai na fyddant yn gallu cynnwys hynny wrth gynllunio. Gallai fod yn ddefnyddiol iddynt siarad ag oedolyn sydd â'r un math o syndrom Usher (gweler yr adran 'Adnoddau'). Gallai cyswllt o'r fath fod o gymorth i rieni hefyd.

Mae'r **Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd** yn berthnasol i gyflogwyr sydd â 15 neu fwy o staff. Rhaid iddynt beidio â thrin gweithwyr ag anableddau'n wahanol i weithwyr eraill, a rhaid iddynt wneud addasiadau rhesymol ar gyfer y sawl sydd ag anableddau. Gallai'r addasiadau hynny gynnwys newidiadau i arferion gweithio neu'r amgylchedd. Bydd yr hyn sy'n 'rhesymol' yn amrywio o un cyflogwr i'r llall – er enghraifft, gallai gwario mwy o arian ar addasu adeiladau fod yn gam mwy rhesymol i gwmni mawr na chwmni bach.

Cwestiynau i'w gofyn i Gynghorydd Gyrfaoedd eich plentyn:

- **Pa opsiynau o ran cyflogaeth a allai fod ar gael i'ch plentyn yn lleol?**

Llunio cynllun pontio

Bydd cynllunio ar gyfer pontio'n cychwyn ym Mlwyddyn 9 pan fydd eich mab neu'ch merch yn 14 oed, a bydd yn parhau nes ei fod/ei bod yn o leiaf 19 oed. Mae'r 'Llinell amser pontio' ar dudalen 27 yn egluro beth sy'n digwydd pryd. Caiff y cyfarfod ffurfiol cyntaf ynghylch pontio ei gynnal yn rhan o gyfarfod yr Adolygiad Blynyddol.

Cyn y cyfarfod Cynllunio ar gyfer Pontio

Pennaeth yr ysgol fydd yn gyfrifol am drefnu'r cyfarfod Cynllunio ar gyfer Pontio. Bydd yn gwybod pa weithwyr proffesiynol fydd yn mynychu'r cyfarfod a pham y bydd pob un ohonynt yno. Dylech chi gael gwybod hynny cyn y cyfarfod. Mae'n debygol y bydd y sawl sy'n bresennol yn cynnwys

- Cynghorydd Gyrfaoedd Gyrfa Cymru
- staff o ysgol eich mab neu'ch merch
- cynrychiolydd o'r Awdurdod Lleol
- gweithwyr proffesiynol o faes Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- unrhyw bobl eraill sy'n ymwneud â helpu eich mab neu'ch merch.

Efallai y bydd rhai'n anfon adroddiadau ysgrifenedig yn lle mynychu'r cyfarfod.

Efallai y byddwch chi am gymryd rhai camau gweithredu cyn y cyfarfod:

- Os ydych o'r farn y dylai rhai gweithwyr proffesiynol penodol fynychu'r cyfarfod, dywedwch wrth yr ysgol mewn da bryd cyn y cyfarfod (sawl mis o flaen llaw) er mwyn sicrhau bod y bobl hynny ar gael.
- Gallwch fynd â rhywun gyda chi i'ch cynorthwyo yn y cyfarfod os ydych yn dymuno. Dywedwch wrth y Pennaeth pwy fydd yn dod.
- Efallai y byddwch chi am ofyn a allwch chi gwrdd â gweithwyr proffesiynol allweddol cyn dyddiad y cyfarfod, yn enwedig os nad ydynt yn adnabod eich mab neu'ch merch yn dda.
- Gofynnwch pa bynciau fydd yn cael eu trin a'u trafod yn y cyfarfod. Os ydych o'r farn bod angen trafod pynciau eraill (darllenwch y rhestr yn yr adran 'Beth ddylai'r broses gynllunio ar gyfer pontio fod yn ymdrin ag ef?'), gofynnwch iddynt gael eu hychwanegu at yr agenda.
- Esboniwch mor glir ag sy'n bosibl beth rydych am ei gael ar gyfer eich teulu. Os na fydd eich mab neu'ch merch yn medru mynegi ei safbwyntiau yn ystod y cyfarfod neu wneud penderfyniadau'n gyflym, mae'n bwysicach fyth ystyried y pynciau trafod o flaen llaw a gwybod beth yw safbwyntiau eich plentyn.

Dylai'r ysgol helpu eich mab neu'ch merch i baratoi ar gyfer y cyfarfod Cynllunio ar gyfer Pontio. Gallai hynny gynnwys unrhyw rai o'r camau canlynol:

- datblygu proffil pontio;
- trafod beth fydd y cyfarfod yn ymwneud ag ef a beth fydd yn digwydd;
- cynnig cyfle i'ch plentyn gael cwmni ffrind neu eiriolwr yn y cyfarfod;
- helpu eich mab neu'ch merch i baratoi unrhyw beth y mae am ei ddweud, gan ddefnyddio ymarfer chwarae rôl efallai.

Os bydd eich mab neu'ch merch yn mynychu'r cyfarfod, rhaid ystyried ei anghenion/ ei hanghenion o flaen llaw. Rhoddir set o Ganllawiau ar gyfer Cyfarfodydd Cynllunio tua diwedd y llyfryn hwn, rhag ofn na fydd gweithwyr proffesiynol yn siŵr beth yw'r ffordd orau o ddiwallu anghenion.

Yn y cyfarfod

Anogir eich mab neu'ch merch i fynychu'r cyfarfod Cynllunio ond nid oes yn rhaid iddo/iddi wneud hynny - er enghraifft, pe bai'r cyfarfod yn achosi llawer o straen neu ofid iddo/iddi. Trydydd opsiwn fyddai galluogi'r person ifanc i fynychu rhan o'r cyfarfod - ei ddechrau fel rheol. Gallai hynny roi cyfle iddo/iddi gwrdd â'r gweithwyr proffesiynol sy'n mynychu'r cyfarfod a mynegi ei safbwyntiau. Os na fydd yn mynychu'r cyfarfod, mae'n hollbwysig bod ei safbwyntiau'n cael eu cyflwyno yn hytrach na'u tybio.

- Os bydd eich mab neu'ch merch yn mynychu'r cyfarfod, dylai gael yr holl gymorth sydd ei angen arno/arni i wneud hynny. Nid chi ddylai ddarparu'r cymorth hwnnw – mae angen i chi fod yn rhydd i gymryd rhan yn y drafodaeth.
- Gwnewch yn si_r eich bod chi'n gyfforddus yn yr ystafell gyfarfod, eich bod chi'n gallu gweld a chlywed pawb a phopeth yn dda, a'ch bod chi'n gwybod pwy yw'r holl bobl eraill sydd yn y cyfarfod. Gofynnwch os byddwch wedi anghofio gwneud hynny.
- Os bydd unrhyw beth yn aneglur gofynnwch i rywun ei egluro wrthych, ac os byddwch yn anghytuno â'r hyn a ddywedir cofiwch ddatgan hynny.
- Os byddwch chi'n teimlo bod dymuniadau eich mab neu'ch merch wedi'u camddehongli, dywedwch hynny. Yn yr un modd cofiwch ddweud os byddwch chi'n teimlo nad yw'r opsiynau a gynigir yn diwallu ei anghenion/ei hanghenion.
- Cofiwch bob amser eich bod chi'n adnabod eich mab neu'ch merch yn well nag unrhyw un arall.
- Gwnewch nodiadau os ydych yn dymuno – gall cofnod fod o gymorth yn nes ymlaen.
- Er mwyn gwneud yn siŵr bod gennych amser i fynegi eich safbwyntiau a gwneud yn siŵr bod safbwyntiau eich plentyn yn cael eu mynegi ar lafar, drwy gyfrwng fideo neu mewn unrhyw ffordd arall, gadewch i'r Cadeirydd wybod o flaen llaw. Byddwch yn hyderus wedyn bod gennych amser i chwarae rhan weithredol yn y cyfarfod.

Mae cyfarfodydd Cynllunio ar gyfer Pontio'n rhan o gyfarfodydd Adolygiadau Blynyddol. Mae'n bwysig sicrhau bod Datganiad eich plentyn yn dal i fod yn gywir, yn enwedig

- y disgrifiad o anghenion (Adran 2)
- y ddarpariaeth sy'n ofynnol i ddiwallu ei anghenion (Adran 3).

Efallai y bydd angen newidiadau i gynnal cwricwlwm sy'n ymdrin yn fwy penodol â bywyd ar ôl gadael yr ysgol. Bydd unrhyw newidiadau i'r cwricwlwm yn cael eu nodi wedyn a'u gweithredu yn yr ysgol. Ceir fformat ar gyfer cyflwyno'r cynllun hwn. Bydd y Datganiad yn cael ei drosglwyddo i'r ddarpariaeth ar gyfer eich plentyn ar ôl iddo adael yr ysgol, ac mae angen iddo fod yn gywir felly.

Ar ôl y cyfarfod

Peidiwch â theimlo bod yn rhaid i chi wneud penderfyniadau'n syth. Mae gennych hawl i ofyn am

- fwy o wybodaeth
- mwy o esboniadau
- mwy o amser i feddwl.

Bydd angen amser hefyd ar eich mab neu'ch merch i ystyried beth sydd wedi digwydd yn y cyfarfod. Os na fynychodd eich mab neu'ch merch y cyfarfod, neu os mynychodd ran ohono'n unig, rhaid rhoi cyfle iddo/iddi ymateb i'r hyn a ddywedwyd yn ei absenoldeb/ei habsenoldeb.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, y Pennaeth sy'n gyfrifol am lunio Cynllun Pontio pob disgybl. Yr Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am y cynllun pontio mewn ysgol arbennig nas cynhelir, ond bydd yn gofyn fwy na thebyg i'r Pennaeth ei drefnu.

Byddwch yn cael copi o Gynllun Pontio eich mab neu'ch merch, a fydd yn cael ei ddiweddaru o leiaf unwaith y flwyddyn. (Os na roddir copi i chi, gofynnwch am un.) Dylai eich mab neu'ch merch gael copi o'r Cynllun hefyd ar ffurf sy'n hwylus iddo/iddi, neu gopi o'i brif bwyntiau os yw hynny'n briodol.

Dylai'r Cynllun Pontio

- gynnwys manylion am gryfderau eich mab neu'ch merch a'r modd y gellid eu datblygu, a manylion am feysydd angen;
- ymdrin â'r newidiadau sy'n ofynnol i'r cwricwlwm mewnol yn ystod blynyddoedd olaf eich plentyn yn yr ysgol;
- ymdrin â'r camau gweithredu sydd eu hangen i baratoi'r person ifanc ar gyfer bod yn oedolyn, gan gynnwys trefnu cysylltiadau ag asiantaethau allanol a nodi'r sgiliau neu'r cysyniadau y dylid eu haddysgu yn yr ysgol;
- pennu targedau clir, a nodi pwy fydd yn cymryd pa gamau gweithredu pryd. Cynghorydd Gyrfaoedd Gyrfa Cymru eich mab neu'ch merch fydd yn gyfrifol am symud unrhyw gamau gweithredu yn eu blaen.
- nodi pa gyswllt fydd gan y Cynghorydd Gyrfaoedd â'ch mab neu'ch merch a/neu chi.

Os nad ydych yn hapus â'r Cynllun, cysylltwch â'r Cynghorydd Gyrfaoedd a/neu'r Pennaeth yn gyntaf.

Rhoi cynlluniau ar waith

Cytunir yn gyffredinol y dylai gwasanaethau i bobl ag anableddau cymhleth gael eu cydlynu'n dda. Yn ymarferol fodd bynnag, bydd gan wahanol asiantaethau wahanol feini prawf a strwythurau ar gyfer darparu gwasanaethau. Golyga hynny y bydd nifer o **wahanol asesiadau a chynlluniau** ar gael ar gyfer pob unigolyn. Mae'n anodd iawn asesu pobl ifanc sydd â nam amlsynhwyraidd yn gywir, a bydd angen arbenigedd a sgiliau penodol ar aseswyr. Efallai y bydd angen egluro hynny wrth nifer o asiantaethau yn eu tro – a gwaith y Cynghorydd Gyrfaoedd yw hynny, nid gwaith rhieni'r person ifanc.

Nid yw cynlluniau'n ddefnyddiol oni bai eu bod yn arwain at gamau gweithredu. Mae'n debyg y bydd Cynllun Pontio eich mab neu'ch merch yn cynnwys cyfleoedd i roi cynnig ar weithgareddau posibl ar ôl gadael yr ysgol. Gallai **ymweliadau neu leoliadau prawf** ddangos bod angen ystyried ffactorau newydd. Er enghraifft, efallai y bydd lefelau'r sŵn sydd yn y cefndir mewn gweithdy'n rhy uchel, ac efallai y bydd angen dewis gweithgareddau sy'n digwydd mewn amgylcheddau tawelach yn lle hynny.

Bydd cyfnod pontio eich mab neu'ch merch yn cael ei drafod ym mhob Adolygiad Blynyddol yn dilyn ei ben-blwydd/ei phen-blwydd yn 14 oed, a bydd y **Cynllun Pontio'n cael ei ddiweddaru**. Dylid ailadrodd yr un cylch bob tro, sef cynllunio, gweithredu a chael gafael ar fwy o wybodaeth.

Ni ddylid aros tan y funud olaf cyn gwneud penderfyniadau terfynol ynghylch darpariaeth ar ôl yr ysgol/coleg. Mae gadael lleoliad cyfarwydd i fynd i leoliad newydd yn brofiad anodd tu hwnt i unrhyw un, ac yn anos fyth i rywun sydd â nam amlsynhwyraidd. Bydd ymweliadau mynych a phontio graddol yn rhoi cyfle i'r sawl dan sylw addasu'n emosiynol yn ogystal ag addasu'n feddyliol ac yn gorfforol.

Bydd angen trosglwyddo **gwybodaeth am y person ifanc** i staff y lleoliad newydd, yn enwedig os yw cyfathrebu'n anodd. Gall dogfennau proffiliau fod yn ddefnyddiol iawn yn hynny o beth, ond ni fyddant yn ddigon ar eu pen eu hunain. Bydd angen amser ar staff y lleoliad newydd i arsylwi'r person ifanc mewn gwahanol sefyllfaoedd, gan gynnwys sefyllfaoedd lle mae'n rhyngweithio â phobl y mae eisoes yn eu hadnabod yn dda. Yn ogystal bydd angen amser ar y staff i drafod â'r bobl sydd wedi bod yn gweithio gyda'r person ifanc o'r blaen.

Ni fydd y cyfnod pontio ar gyfer unrhyw berson ifanc yn dod i ben pan fydd yn **symud o'r ysgol i'r coleg**, ond mae'n debyg y bydd y rheiny sydd heb anableddau'n tyfu'n fwyfwy annibynnol ac y bydd angen llai o gymorth strwythuredig arnynt wrth iddynt fynd yn hŷn. Efallai y bydd angen llawer o help o hyd ar bobl sydd â nam amlsynhwyraidd i fyw o ddydd i ddydd a gwneud penderfyniadau, ac **efallai y bydd angen parhau i gynnig cymorth o ran pontio** pan fydd y person ifanc dan sylw yn ei ugeiniau. Os felly, y Cynghorydd Gyrfaoedd fydd yn gyfrifol am drefnu cymorth priodol, hyd yn oed os na chaiff y cymorth dan sylw ei ddarparu'n uniongyrchol ganddo ef. Mae gan eich mab neu'ch merch hawl i gael cymorth o'r fath os oes ei angen arno/arni, nes ei fod/ei bod yn 25 oed.

Llinell amser pontio

14 oed (blwyddyn 9)	**Gyrfa Cymru** yn ymwneud â'r person ifanc am y tro cyntaf - Cynghorydd Gyrfaoedd yn cwrdd â'r person ifanc yn yr ysgol. **Yr ysgol yn cysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol** i ofyn a fydd gan y person ifanc hawl i wasanaethau oedolion pan fydd yn gadael yr ysgol. **Cyfarfod Cynllunio ar gyfer Pontio** yn cael ei gynnal, yr un pryd â'r adolygiad blynyddol o'r Datganiad Anghenion Addysgol fel rheol. Y Cynllun Pontio yn cael ei lunio ar ôl y cyfarfod hwn a chopi'n cael ei anfon at bawb sy'n ymwneud ag ef.
15 oed (blwyddyn 10)	Dylai'r **camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn y Cynllun Pontio** ddigwydd. Adolygu'r Cynllun (yng nghyfarfod yr Adolygiad Blynyddol fwy na thebyg). Dechrau ystyried a fydd y person ifanc yn gadael yr ysgol yn 16 oed neu'n parhau i fynychu'r ysgol nes ei fod yn 19 oed.
16 oed (blwyddyn 11)	Efallai y bydd y person ifanc yn aros yn ei **ysgol bresennol**, yn gadael i fynd i **ysgol arall, coleg, cynllun hyfforddiant cyflogaeth neu swydd**. Os bydd y person ifanc yn aros yn yr ysgol, bydd ei **Ddatganiad AAA** yn cael ei **gynnal** fel o'r blaen nes ei fod yn 19 oed. Os bydd y person ifanc yn gadael yr ysgol, bydd y rhan sydd gan yr Awdurdod Lleol i'w chwarae gan gynnwys y **Datganiad AAA yn dod i ben**. Mewn achos o'r fath, bydd y Cynllun Pontio'n dod i ben a bydd **Cynllun Symud Ymlaen** yn cymryd ei le (a gydlynir gan Gynghorydd Gyrfaoedd Gyrfa Cymru). Os bydd y person ifanc yn symud ymlaen i Addysg Bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth, dylai gael **asesiad o anghenion o ran addysg a hyfforddiant** (a reolir gan Gynghorydd Gyrfaoedd Gyrfa Cymru). Caiff **Cynllun Gweithredu Iechyd** ei lunio gan weithwyr iechyd proffesiynol – dylai gynnwys y gwasanaethau sydd eu hangen, megis therapi lleferydd neu ffisiotherapi. Bydd y gwasanaethau cymdeithasol yn cysylltu â'r person ifanc ynghylch asesiad o anghenion – yr Asesiad Gofal Cymunedol, a fydd yn arwain at **Gynllun Gofal**. Gall **gofalwyr** ofyn am asesiad o'u hanghenion eu hunain hefyd. Bydd **hawliau o ran budd-daliadau** yn newid pan fydd person ifanc yn cyrraedd ei ben-blwydd yn 16 oed. Gall y person ifanc gael **taliadau uniongyrchol** hefyd (i dalu am wasanaethau gofal) yn ei enw ei hun.

17 oed	**Adolygu'r Cynllun Pontio neu'r Cynllun Symud Ymlaen** – caiff y cyfarfodydd eu cydlynu gan Gynghorydd Gyrfaoedd Gyrfa Cymru os yw'r person ifanc wedi gadael yr ysgol. Dylid cynnal yr **Asesiad Gofal Cymunedol** mewn pryd fel bod modd darparu gwasanaethau unwaith y bydd y person ifanc yn 18 oed.
18 oed	Mae'r person ifanc yn **oedolyn yn ôl y gyfraith**. Mae'r person ifanc yn symud i **Wasanaethau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol oedolion**. Dylai Cynllun Gweithredu Iechyd y person ifanc nodi unrhyw anghenion o ran iechyd, gan gynnwys mynediad i therapïau. Dylai ei **Gynllun Gofal** gynnwys manylion ynghylch unrhyw wasanaethau cymorth sydd eu hangen – efallai y codir tâl am wasanaethau. Caiff **asesiad o anghenion o ran addysg a hyfforddian**t (a reolir gan Gynghorydd Gyrfaoedd Gyrfa Cymru) ei gynnal yn awr os na wnaethpwyd hynny o'r blaen.
19 oed	Mae'r person ifanc yn **gadael yr ysgol** os nad yw wedi gwneud hynny eisoes. Mae'r person ifanc yn symud ymlaen i **goleg, hyfforddiant, gwaith neu wasanaethau dydd**. Os yw eisoes mewn coleg, efallai y bydd yn gadael i fynd i ddarpariaeth arall. Caiff **Cynllun Pontio** neu **Gynllun Symud Ymlaen** y person ifanc ei drosglwyddo i'w ddarpariaeth newydd.
20-25 oed	**Mae cynllunio ar gyfer pontio'n parhau os oes angen**. Bydd Gyrfa Cymru ac APADGOS yn cytuno ar y cyd ar ffynonellau a lefelau cymorth. Dylai'r person ifanc fod yn cael cymorth gan wasanaethau oedolion erbyn iddo gyrraedd ei ben-blwydd yn 25 oed fan bellaf.

Fy mhroffil pontio

Sut mae siarad â fi

Beth rwy'n gallu ei weld a'i glywed

Beth rwy'n hoffi ei wneud, gartref ac yn yr ysgol

Beth nad wy'n hoffi ei wneud

Y pethau rwy'n gallu eu gwneud ar fy mhen fy hun

Y pethau y mae angen help arnaf i'w gwneud (a'r help sydd ei angen arnaf)

Y bobl a'r lleoedd rwy'n eu hoffi

Y pethau rwyf am eu gwneud yn y dyfodol

Y bobl rwyf am gadw mewn cysylltiad â nhw

Y gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â chyfnod pontio .....

Enw	Teitl swydd	Gwasanaeth/ Asiantaeth	Rhif ffôn	Cyfeiriad e-bost

Cyswllt â gweithwyr proffesiynol

Enw neu rôl	Rhif ffôn cyswllt	Pwy gysylltodd? Dyddiad		Diben y cyswllt	Beth fydd yn digwydd nesaf?
		Fi	Nhw		

Adnoddau

www.careerswales.com Mae'n darparu gwybodaeth am rôl a chyfrifoldebau Gyrfa Cymru.

www.sense.org.uk Mae'n darparu gwybodaeth am ddallineb-byddardod, nam amlsynhwyraidd, syndrom Usher, hawliau pobl sydd â nam amlsynhwyraidd, ac opsiynau ar gyfer oedolion ifanc. Ffôn: 0845 127 0060

www.usheruk.org.uk Grŵp ar gyfer pobl sydd â syndrom Usher ynghyd â'u teuluoedd a'u ffrindiau yw Usher UK.

www.myfuturechoices.org.uk Mae'r Rhwydwaith Gwybodaeth ynghylch Pontio wedi'i leoli yn y Cyngor dros Blant Anabl, ac mae'n brosiect cenedlaethol sy'n darparu fforwm lle gall pobl anabl ifanc a gweithwyr proffesiynol gyfnewid gwybodaeth ac ymuno mewn digwyddiadau a gweithgareddau sy'n hyrwyddo arfer da.

www.natspec.org.uk Mae gwefan NATSPEC (y Gymdeithas Colegau Arbenigol Cenedlaethol) yn cynnwys cyfeirlyfr o golegau arbenigol a rhai cwestiynau i'w gofyn wrth ymweld â darpariaeth Addysg Bellach.

wales@equalityhumanrights.com Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 3ydd Llawr, 3 Sgwâr Callaghan, Caerdydd, CF10 5BT

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru yn hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol i bawb, ac mae'n gweithio i ddileu achosion o wahaniaethu, lleihau anghydraddoldeb, gwarchod hawliau dynol a meithrin cysylltiadau da, gan sicrhau bod pawb yn cael cyfle teg i gymryd rhan mewn cymdeithas.

Ffôn: 02920 447710
(ar gyfer galwadau nad ydynt i'r llinell gymorth)
Ffôn testun: 02920 447713
Ffacs: 02920 447712

www.disabilityalliance.org Mae'r Gynghrair Anabledd yn rhoi cyngor ynghylch budd-daliadau a ffïoedd
Llinell gyngor: 020 7247 8763

http://callcentre.education.ed.ac.uk/Resources/Passports_REA/passports_rea.html Pasportiau personol at ddefnydd cyffredinol, ond gellid addasu'r dull gweithredu'n rhwydd fel ei fod yn ymwneud yn benodol â phontio.

www.cafamily.org.uk Mae Contact a Family yn rhoi cyngor a gwybodaeth i deuluoedd â phlant sydd ag anableddau neu anghenion arbennig. Mae'r sefydliad hefyd yn darparu ystod o daflenni ffeithiau, ac mae ganddo rwydwaith o gynrychiolwyr gwirfoddol.

www.skill.org.uk Mae Skill yn rhoi gwybodaeth a chyngor i fyfyrwyr anabl, neu fyfyrwyr ag anawsterau dysgu, ynghylch pob agwedd ar addysg a hyfforddiant i bobl 16 oed a throsodd. Mae'r wybodaeth sydd ar gael yn cynnwys manylion ynghylch hawliau ariannol, mynediad i sefydliadau addysg uwch, a chyfleusterau mewn sefydliadau o'r fath. Yn ogystal mae Skill yn cynhyrchu cyhoeddiadau, gan gynnwys llythyr newyddion rheolaidd.

www.carersuk.org/information/helpwithcaring/carersassessmentguide Carers UK yw'r mudiad yn y sector gwirfoddol sy'n gweithio i gynorthwyo gofalwyr. Mae wedi cyhoeddi canllaw ardderchog ynghylch asesu gofalwyr.

www.adviceguide.org.uk Mae'r wefan hon yn perthyn i Gyngor ar Bopeth, ac mae'n cynnwys gwybodaeth glir am fudd-daliadau.

Mae *Contact a Family* **www.cafamily.org.uk** yn dod â theuluoedd ynghyd y mae gan eu plant anhwylderau prin ac anghyffredin. Mae llawer o'r plant hynny wedi colli eu golwg a'u clyw o'u genedigaeth neu ar ôl eu genedigaeth.

www.sense.org.uk Ceir dwy daflen ffeithiau ddefnyddiol yn yr adran gyhoeddiadau:

Setting up a Trust for a disabled family member Mae'r daflen ffeithiau hon yn ymdrin â phopeth sydd angen i chi ei wybod am sefydlu Ymddiriedolaeth ar gyfer aelod anabl o'r teulu.

Sense guide to making a Will Mae'r daflen ffeithiau hon yn sôn wrthych am bopeth sydd angen i chi ei wybod am wneud ewyllys, gan gynnwys pam y mae gwneud ewyllys yn bwysig, sut i ysgrifennu ewyllys, ac esboniad o'r jargon y gallech chi ddod ar ei draws.

Gwybodaeth ar gyfer Cynghorwyr Gyrfaoedd/gweithwyr proffesiynol eraill

Bwriedir i'r rhan hon o'r llyfryn gael ei defnyddio'n bennaf gan Gynghorydd Gyrfaoedd sy'n dechrau gweithio gyda'r person ifanc er mwyn nodi ble mae angen cymorth.

Mae'n esbonio rhai anawsterau penodol y bydd pobl ifanc sydd â nam amlsynhwyraidd yn eu hwynebu, ac mae'n awgrymu canllawiau ar gyfer arfer da yn ystod y cyfnod pontio.

Beth yw nam amlsynhwyraidd?

Multi-sensory impairment (MSI) yw nam amlsynhwyraidd yn Saesneg. Mae gan y rhan fwyaf o bobl sydd â nam amlsynhwyraidd nam ar eu golwg a nam ar eu clyw – cyflwr a elwir hefyd yn ddallineb-byddardod. Bydd gan y mwyafrif anableddau eraill hefyd megis anableddau corfforol, anawsterau meddygol a/neu anawsterau dysgu.

Weithiau gellir defnyddio'r term 'nam amlsynhwyraidd' hefyd pan fydd gan bobl sydd â nam ar un synnwyr (eu golwg neu'u clyw) lawer o anableddau hefyd. Yr hyn sy'n gyffredin i bawb sydd â nam amlsynhwyraidd yw'r ffaith ei bod yn eithriadol o anodd iddynt gael a defnyddio gwybodaeth drwy gyfrwng eu golwg a'u clyw.

Bydd rhai pobl sydd â nam amlsynhwyraidd neu sy'n fyddarddall yn alluog iawn, a byddant yn mynychu ysgolion prif-ffrwd ac yn dilyn yr un cwricwlwm â'u cyfoedion, ar yr un lefel â nhw. Bydd gan bobl eraill sydd â nam amlsynhwyraidd neu sy'n fyddarddall anghenion dwys a chymhleth, a byddant yn ddibynnol iawn ar eraill. Bydd y mwyafrif yn ei chael hi'n anodd

- cael gwybodaeth ynghylch yr hyn sy'n digwydd o'u cwmpas
- cyfathrebu a meithrin/cynnal perthynas ag eraill
- symud.

Sicrhau bod pontio'n llwyddiannus

Ceir nifer o rwystrau a all atal pontio rhag bod yn llwyddiannus i bobl ifanc sydd â nam amlsynhwyraidd. Mae rhai o'r rhwystrau hynny'n gyffredin i'r rhan fwyaf o bobl ifanc sydd ag anableddau difrifol, ond mae rhai ohonynt yn benodol i bobl ifanc sydd â nam amlsynhwyraidd:

- Mae nam amlsynhwyraidd yn anabledd prin iawn, ac ychydig iawn y mae'r rhan fwyaf o weithwyr proffesiynol yn ei wybod amdano felly.
- Ychydig iawn o wybodaeth y bydd llawer o bobl ifanc sydd â nam amlsynhwyraidd yn ei chael o'r byd sydd o'u cwmpas. Byddant felly'n ei chael hi'n anodd gwneud penderfyniadau cytbwys neu ystyried unrhyw beth y tu hwnt i'r hyn sy'n digwydd ar y pryd.
- Mae gan lawer o bobl ifanc sydd â nam amlsynhwyraidd allu cyfyngedig i gyfathrebu'n ffurfiol.
- Mae gan lawer o bobl ifanc sydd â nam amlsynhwyraidd anghenion cymhleth, ac mae angen gwasanaethau gan nifer o wahanol asiantaethau arnynt.
- Mae nam amlsynhwyraidd yn creu anghenion cymhleth iawn, ac mae arbenigedd yn hanfodol felly er mwyn asesu'n gywir a darparu gwasanaethau da.

Mae gweddill yr adran hon yn awgrymu ffyrdd o oresgyn y rhwystrau hyn a hyrwyddo gwaith pontio llwyddiannus.

Gwneud dewisiadau ynghylch y dyfodol

Gall rhai pobl ifanc sydd â nam amlsynhwyraidd drafod syniadau a chynlluniau gan ddefnyddio arwyddion, symbolau a/neu iaith lafar. Bydd pobl ifanc sydd â syndrom Usher, er enghraifft, yn gallu cyfathrebu'n rhugl gan ddefnyddio iaith lafar neu arwyddion. Bydd llawer o rai eraill yn ei chael hi'n anos cyfathrebu. I'r bobl ifanc hynny, gall gwneud dewisiadau ynghylch beth i'w wneud a ble i fyw yn y dyfodol ymddangos yn amhosibl, ond gellir eu helpu mewn llawer o wahanol ffyrdd.

Y rhieni neu'r gofalwyr fydd yn adnabod y person ifanc orau, ond bydd angen gwybodaeth arnynt am y gwasanaethau sydd ar gael yn lleol ac yn genedlaethol. Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys nifer o siartiau i'w llenwi gan rieni neu ofalwyr. Gall y siartiau hyn fod yn sylfaen i drafodaeth ynghylch anghenion y person ifanc a'i opsiynau ar gyfer y dyfodol. Bydd gan staff yr ysgol beth wmbredd o wybodaeth am alluoedd a hoffterau'r person ifanc hefyd, ynghyd â syniadau am sut y gall gyfleu ei ddymuniadau personol ynghylch ei ddyfodol.

Dechrau â'r hyn y mae'r person ifanc yn ei hoffi a'r hyn nad yw'n ei hoffi

Ni fydd hynny'n broblem i'r bobl ifanc sydd â **sgiliau cyfathrebu da**. Bydd angen cynllunio o hyd er mwyn hwyluso cyfraniad ganddynt. Bydd gan rai pobl ifanc sydd â nam amlsynhwyraidd anableddau dwys a **sgiliau cyfathrebu cyfyngedig iawn**. Rhaid gwneud ymdrech yn achos y plant hynny i sicrhau eu bod yn cael cyfle i "ddweud eu dweud".

Yn ogystal bydd angen i rieni, gweithwyr proffesiynol a ffrindiau **rannu eu syniadau** ynghylch y pethau y mae'r person ifanc yn eu hoffi a'r pethau nad yw'n eu hoffi, a bydd angen iddynt ddangos hefyd sut y maent yn gwybod hynny. Bydd hyn yn sylfaen i drafodaeth ynghylch beth fyddai'r person ifanc yn hoffi ei wneud pan fydd yn gadael yr ysgol, beth na fyddai'n hoffi ei wneud (sydd yr un mor bwysig) a sut y gall fynegi ei safbwyntiau orau.

Gall y syniadau a drafodir awgrymu **gweithgareddau newydd y gallai'r person ifanc roi cynnig arnynt** tra'i fod yn dal i fynychu'r ysgol. Bydd ei ymatebion i'r gweithgareddau hynny'n cynnig mwy o wybodaeth am ei hoffterau a'i ddymuniadau, a bydd modd ailadrodd y cylch cyfan, â dealltwriaeth well o safbwyntiau'r person ifanc yn dod i'r amlwg bob tro.

Gwneud dewisiadau gwybodus

Mae nam amlsynhwyraidd yn effeithio ar allu pobl i ddysgu am y byd sydd o'u cwmpas, oherwydd bydd y wybodaeth a gânt o'u hamgylchedd yn gyfyngedig iawn. Mae hynny'n ei gwneud hi'n anodd i bobl sydd â nam amlsynhwyraidd gymharu un profiad â phrofiad arall, ac mae'n golygu ei bod bron yn amhosibl iddynt ddysgu'n ddiarwybod. Oherwydd hynny, bydd gan bobl sydd â nam amlsynhwyraidd **fylchau** enfawr **yn eu gwybodaeth** yn aml.

Bydd y rhan fwyaf o blant, er enghraifft, yn dod yn ymwybodol o ystod o yrfaoedd wrth iddynt dyfu. Byddant yn gwybod beth mae eu rhieni'n ei wneud; byddant yn gweld athrawon, meddygon, staff gwerthu a phobl eraill yn gweithio o'u hamgylch; byddant yn gweld pobl yn gwneud amrywiaeth o swyddi ar y teledu. Byddant yn casglu gwybodaeth o ystod o ffynonellau yn gyfan gwbl ddiymdrech. Mae'n annhebygol y bydd pobl ifanc sydd â nam amlsynhwyraidd yn gwneud hynny, waeth pa mor ddeallus ydynt. Ni fydd ganddynt gronfa o wybodaeth eisoes am wahanol opsiynau o ran byw, gweithio, dysgu a chymdeithasu, y gellir ychwanegu gwybodaeth gywir ati o dro i dro. Bydd angen **iddynt gael yr holl wybodaeth am bwnc**, mewn ffordd sy'n eu galluogi i'w deall a'i chofio, er mwyn gwneud dewisiadau gwybodus.

Bydd rhai pobl ifanc sydd â nam amlsynhwyraidd yn gallu dysgu llawer o **fideos, llyfrau a thrafodaethau**. Fodd bynnag bydd angen i'r rhan fwyaf ohonynt **gael gwybodaeth yn uniongyrchol**, drwy gael profiad o'r gwahanol opsiynau sydd ar gael.

Ni fydd un ymweliad yn unig â phob **coleg neu gartref neu glwb** a drafodir yn ddigon. Yn aml bydd y rheiny ohonom sydd heb unrhyw nam ar ein golwg neu'n clyw yn darganfod mai ychydig y byddwn ni'n ei gofio o'n hymweliad cyntaf â lle newydd, yn enwedig os caiff gweithgareddau newydd eu cynnwys ac os bydd angen i ni wneud penderfyniadau tyngedfennol ynghylch y profiad. Bydd pobl y mae eu golwg neu'u clyw'n gyfyngedig yn cael gwybodaeth gyfyngedig iawn am yr hyn sy'n digwydd iddynt, ac efallai mai manylion bach ynghylch profiad fydd eu prif atgof. **Bydd angen ymweliadau mynych** i'w galluogi i greu darlun mwy cyflawn. Yn ystod yr ymweliadau hyn, bydd arnynt angen **cymorth gan rywrai y maent yn eu hadnabod ac yn ymddiried ynddynt** – nid eu cael i 'ymdopi' â phobl newydd yw'r nod, ond ychwanegu at eu gwybodaeth am leoliad. Bydd siarad am y profiad wedyn gan ddefnyddio ffotograffau, lluniau, gwrthrychau, fideo a/neu recordiad sain yn helpu'r person ifanc i feddwl am ei brofiadau.

Gan fod cynllunio ar gyfer pontio'n broses esblygol, efallai y bydd y camau cynllunio cynnar yn arwain at **drefnu ymweliadau, cyrsiau blasu neu leoliadau cyswllt**. Bydd y rhain yn rhoi sylfaen i'r person ifanc wneud dewisiadau gwybodus yn ystod camau diweddarach yn y broses gynllunio. Byddant hefyd yn dechrau'r broses o bontio i'r lleoliad newydd a ddewisir maes o law.

Mynegi dewisiadau

Bydd y rhan fwyaf o bobl ifanc sydd â nam amlsynhwyraidd yn **cyfathrebu'n llawer gwell â phobl y maent yn eu hadnabod ac yn ymddiried ynddynt**. Mae'n hollbwysig bod y person ifanc yn trafod y cyfnod pontio â pherson o'r fath - boed hynny drwy iaith lafar, arwyddion, symbolau, ystumiau neu iaith y corff. Efallai y bydd rhai pobl ifanc sydd â nam amlsynhwyraidd yn cyfleu eu dewisiadau'n glir (hoffter o gartref grŵp penodol, er enghraifft) drwy gyfrwng eu hymddygiad mewn gwahanol leoliadau, er na fyddant efallai'n mynegi'r hoffter hwnnw mewn geiriau o unrhyw fath. Gall **pawb, beth bynnag fo'u dull cyfathrebu**, ddangos a ydynt yn hoffi neu'n casáu profiad, a **gwneud dewis** felly hefyd.

Weithiau efallai y bydd pobl ifanc sydd â nam amlsynhwyraidd yn gwneud dewisiadau sy'n ymddangos yn afrealistig. Bydd y rhain yn haeddu sylw agos, oherwydd bod gan y person ifanc hawl i gael gwrandawiad ac oherwydd bod posibilrwydd y gallai'r dewisiadau hynny fod yn llawn gwybodaeth. Yn aml bydd gan bobl ifanc sydd â nam amlsynhwyraidd olwg gyfyngedig iawn ar y byd oherwydd bod eu mynediad i wybodaeth yn gyfyngedig. Efallai mai'r dewis sy'n swnio'n afrealistig fydd ymgais agosaf y person ifanc i fynegi opsiwn gwahanol, mwy realistig.

Weithiau efallai na fydd dewis sy'n afrealistig i bob golwg yn afrealistig mewn gwirionedd, os **caiff cymorth a chymhorthion priodol eu darparu**.

Anghenion sy'n newid

Bydd gan rai pobl ifanc sydd â nam amlsynhwyraidd **anghenion sy'n newid**, oherwydd bydd lefelau eu hiechyd, eu golwg a/neu'u clyw'n newid. Efallai y bydd pobl ifanc yn eu harddegau sydd â syndrom Usher, a all achosi byddardod o'u genedigaeth a pheri i'w golwg ddirywio'n raddol, yn darganfod bod y ffaith bod eu golwg yn waeth yn y nos yn cyfyngu ar eu bywyd cymdeithasol, ar yr union adeg pan fydd eu cyfoedion yn cael mwy o ryddid. Efallai mai'r broses gynllunio ar gyfer pontio fydd y tro cyntaf i'r person ifanc orfod wynebu realiti galluoedd sy'n newid a chynllunio ar gyfer hynny. Rhaid i'r oedolion sy'n ymwneud â'r achos **barchu'r cyfyngiadau ar allu'r person ifanc i wynebu newid**, os bwriedir iddo barhau i fod yn ganolog i'r broses gynllunio.

Efallai y bydd gan bobl ifanc sydd â syndrom Usher gynlluniau ar gyfer eu gyrfa sy'n ymddangos yn afrealistig i'r oedolion sydd o'u hamgylch. Bydd angen eu hystyried yn ofalus. A yw'r cynllun yn afrealistig mewn gwirionedd? Bydd gyrfaoedd sy'n golygu gyrru'n afrealistig, ond gallai gyrfaoedd eraill fod yn hollol realistig. Ychydig iawn o bobl sy'n dilyn yr un yrfa gydol eu hoes erbyn hyn. Beth am y posibilrwydd o newid cyfeiriad yn nes ymlaen?

Y ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc ag anghenion cymhleth

Mae gan lawer o bobl ifanc sydd â nam amlsynhwyraidd **anableddau lluosog cymhleth**, ac maent yn cael **gwasanaethau gan ystod o asiantaethau**. Yn aml byddan nhw a'u teuluoedd yn adnabod meddygon, therapyddion a gweithwyr proffesiynol eraill unigol yn dda iawn. Bydd eu cyfnod pontio rhwng bod yn blentyn a bod yn oedolyn yn gofyn llawer iawn gan eu rhieni neu'u gofalwyr, a fydd yn gorfod dod i adnabod ymarferwyr newydd a'r **gwahanol systemau sy'n gweithredu mewn gwasanaethau oedolion**.

Mae nam amlsynhwyraidd yn anabledd prin iawn, a dim ond un neu ddau berson â nam amlsynhwyraidd y bydd llawer o feddygon, gweithwyr cymdeithasol a therapyddion yn cwrdd â nhw gydol eu gyrfa. Mae hynny'n golygu **na fyddant efallai'n deall anghenion cymhleth iawn** llawer o bobl sydd â nam amlsynhwyraidd. Yn anad dim, efallai y byddant yn cymryd yn ganiataol bod y rhan fwyaf o'u hanawsterau'n deillio o anabledd dysgu yn hytrach nag effeithiau nam ar y synhwyrau. Bydd hynny'n achosi **problemau** aruthrol **o safbwynt asesu anghenion yn gywir**, ac o safbwynt **darparu**

gwasanaethau priodol felly hefyd.

Bydd y rhan fwyaf o rieni pobl ifanc sydd â nam amlsynhwyraidd yn amheus iawn o asesiadau o angen a phenderfyniadau ynghylch darparu gwasanaethau. Bydd rhai eisoes wedi cael profiad o arferion gwael gweithwyr proffesiynol sy'n gwybod fawr ddim am nam amlsynhwyraidd. Mae'n bwysig iawn bod **asesiadau'n cael eu cynnal gan bobl sydd ag arbenigedd a gwybodaeth arbenigol briodol**. Efallai y bydd hynny'n golygu **prynu asesiadau gan ddarparwyr arbenigol** megis Sense. Efallai y bydd angen egluro hynny wrth nifer o asiantaethau yn eu tro – a gwaith y Cynghorydd Gyrfaoedd yw hynny, nid gwaith rhieni'r person ifanc.

Yn achos pobl ifanc sy'n cael ystod o wasanaethau, bydd angen i'r gwasanaethau hynny gael eu cydlynu'n dda. Yn ymarferol fodd bynnag, bydd gan wahanol asiantaethau wahanol feini prawf a strwythurau ar gyfer darparu gwasanaethau. Golyga hynny y bydd nifer o **wahanol asesiadau a chynlluniau** ar gael ar gyfer pob unigolyn.

Mae angen i'r rhain fod yn gydlynus, er mwyn osgoi asesiadau mynych pryd bynnag y bo hynny'n bosibl ac er mwyn gwneud yn siŵr bod y set derfynol o gynlluniau'n gynhwysfawr ac yn briodol.

Bydd angen gwybodaeth gynhwysfawr am ddarpariaeth i oedolion ar rieni neu ofalwyr. Caiff nifer o gwestiynau y gallent eu gofyn i wahanol asiantaethau eu hawgrymu yn y llyfryn hwn. Caiff y cwestiynau hynny eu rhestru gyda'i gilydd isod:

asiantaeth	gofyn i bwy	y cwestiynau y gallai rhieni eu gofyn
Gyrfa Cymru	Cynghorydd Gyrfaoedd	Pwy fydd yn gyfrifol am gydlynu'r gwasanaethau a ddarperir? A yw'r person hwnnw'n deall anghenion penodol pobl sydd â nam amlsynhwyraidd?
Gwasanaethau Cymdeithasol	gweithiwr cymdeithasol neu Gynghorydd Gyrfaoedd	Pryd bydd Asesiad Gofal Cymunedol yn digwydd? Pa weithwyr proffesiynol fydd yn cynnal yr Asesiad Gofal Cymunedol? A ydynt yn deall anghenion penodol pobl sydd â nam amlsynhwyraidd? Pryd gellir trefnu asesiad o anghenion teuluol i'r person sy'n ofalwr? Pryd gallan nhw drefnu asesiad yn unol â'r Canllawiau ynghylch Dallineb-byddardod: 'Gofal Cymdeithasol am Blant ac Oedolion sy'n Fyddar a Dall'? Pwy fydd yn cynnal yr asesiad? Pa hyfforddiant y mae'r sawl dan sylw wedi'i gael ynghylch nam amlsynhwyraidd?

asiantaeth	gofyn i bwy	y cwestiynau y gallai rhieni eu gofyn
Addysg	Cynghorydd Gyrfaoedd	Beth yw'r opsiynau lleol ar gyfer addysg ôl-16? Pa ddarpariaeth ysgol ôl-16 sydd ar gael yn eich ardal? Pa brofiad ac arbenigedd sydd gan golegau lleol mewn perthynas ag anghenion cymhleth a nam amlsynhwyraidd? Pa gyrsiau perthnasol y maent yn eu cynnig? Pa leoliadau a allai fod ar gael mewn colegau arbenigol, a beth maent yn ei gynnig? Pwy fydd yn ymwneud â'r Cynllun Dysgu a Sgiliau? Pa hyfforddiant a phrofiad sydd gan y bobl hynny mewn perthynas â nam amlsynhwyraidd?
Gwasanaethau iechyd	Meddyg Teulu neu Gynghorydd Gyrfaoedd	Pwy fydd yn cydlynu gwasanaethau iechyd eu plentyn pan fydd yn oedolyn? Sut y bydd y broses o symud i wasanaethau iechyd oedolion yn cael ei threfnu? Mae hynny'n berthnasol i bob gwasanaeth a geir ar hyn o bryd. Sut y bwriedir sicrhau parhad o ran gofal mewn perthynas â therapi lleferydd ac iaith, ffisiotherapi neu wasanaethau arbenigol eraill?
Budd-daliadau	gweithiwr cymdeithasol/ Cynghorydd Gyrfaoedd	Pa fudd-daliadau y bydd gan y person ifanc hwn hawl i'w cael pan fydd yn 16 oed? Sut y dylid hawlio'r budd-daliadau hynny?
Tai	gweithiwr cymdeithasol/ Cynghorydd Gyrfaoedd	Beth yw'r opsiynau lleol o ran tai ar gyfer pobl ifanc sydd â nam amlsynhwyraidd? Pa ddarpariaeth breswyl arbenigol a allai ddiwallu anghenion y person ifanc hwn?
Cyflogaeth	Cynghorydd Gyrfaoedd	Pa opsiynau o ran cyflogaeth a allai fod ar gael i'r person ifanc yn lleol?

Cynllunio ar gyfer pontio a gweithredu'r cynlluniau

Nid yw cynlluniau'n ddefnyddiol oni bai eu bod yn arwain at gamau gweithredu. Bydd angen cyfleoedd ar y rhan fwyaf o bobl ifanc sydd â nam amlsynhwyraidd i roi cynnig ar weithgareddau posibl ar ôl gadael yr ysgol. **Gallai ymweliadau neu leoliadau prawf** ddangos bod angen ystyried ffactorau newydd. Er enghraifft, efallai y bydd lefelau'r sŵn sydd yn y cefndir mewn gweithdy'n rhy uchel, ac efallai y bydd angen dewis gweithgareddau sy'n digwydd mewn amgylcheddau tawelach yn lle hynny. Dylid ailadrodd yr un cylch bob blwyddyn, sef cynllunio, gweithredu a chael gafael ar fwy o wybodaeth.

Ni ddylid aros tan y funud olaf cyn gwneud **penderfyniadau terfynol ynghylch darpariaeth ar ôl yr ysgol neu'r coleg**. Mae gadael lleoliad cyfarwydd i fynd i leoliad newydd yn brofiad anodd tu hwnt i unrhyw un, ac yn anos fyth i rywun sydd â nam amlsynhwyraidd. Bydd **ymweliadau mynych a phontio graddol** yn rhoi cyfle i'r sawl dan sylw addasu'n emosiynol yn ogystal ag addasu'n feddyliol ac yn gorfforol.

Bydd angen trosglwyddo **gwybodaeth am y person ifanc** i staff y lleoliad newydd, yn enwedig os yw cyfathrebu'n anodd. Gall proffiliau fod yn ddefnyddiol iawn yn hynny o beth, ond ni fyddant yn ddigon ar eu pen eu hunain. Bydd angen amser ar staff y lleoliad newydd i arsylwi'r person ifanc mewn gwahanol sefyllfaoedd, gan gynnwys sefyllfaoedd lle mae'n rhyngweithio â phobl y mae eisoes yn eu hadnabod yn dda. Yn ogystal bydd angen amser ar y staff i drafod â'r bobl sydd wedi bod yn gweithio gyda'r person ifanc o'r blaen.

Ni fydd y cyfnod pontio ar gyfer unrhyw berson ifanc yn dod i ben pan fydd yn **symud o'r ysgol i'r coleg**, ond mae'n debyg y bydd y rheiny sydd heb anableddau'n tyfu'n fwyfwy annibynnol ac y bydd angen llai o gymorth strwythuredig arnynt wrth iddynt fynd yn hŷn. Efallai y bydd angen llawer o help o hyd ar bobl sydd â nam amlsynhwyraidd i fyw o ddydd i ddydd a gwneud penderfyniadau, ac **efallai y bydd angen parhau i gynnig cymorth o ran pontio** pan fydd y person ifanc dan sylw yn ei ugeiniau.

Cyfarfodydd cynllunio ar gyfer pontio – gofalu eu bod yn gweithio i bawb

1. Dylai'r person ifanc a'i rieni fod yn gwybod cyn y cyfarfod pa weithwyr proffesiynol fydd yn bresennol a pham y bydd pob un ohonynt yno. Dylent gael copïau o unrhyw adroddiadau ysgrifenedig hefyd.
2. Efallai y byddant am awgrymu enwau gweithwyr proffesiynol y byddent yn hoffi iddynt fod yn bresennol yn y cyfarfod. Bydd angen eu holi ynghylch hynny mewn da bryd er mwyn rhoi rhybudd rhesymol i'r gweithwyr proffesiynol hynny.
3. Dylai'r person ifanc a'i rieni fod yn gwybod o flaen llaw pa bynciau fydd yn cael eu trin a'u trafod yn y cyfarfod, a dylent gael cyfle i awgrymu pynciau eraill sy'n bwysig iddynt.
4. Bydd angen help ar bobl ifanc sydd â nam amlsynhwyraidd i baratoi ar gyfer y cyfarfod Cynllunio ar gyfer Pontio, p'un a yw'n bwriadu ei fynychu ai peidio. Yn dibynnu ar alluoedd y person ifanc, gallai gwaith paratoi gynnwys
   - datblygu proffil pontio;
   - trafod beth fydd y cyfarfod yn ymwneud ag ef a beth fydd yn digwydd;
   - cynnig cyfle i'r person ifanc gael cwmni ffrind neu eiriolwr yn y cyfarfod;
   - helpu'r person ifanc i baratoi unrhyw beth y mae am ei ddweud, gan ddefnyddio ymarfer chwarae rôl efallai.
5. Efallai y bydd rhai pobl ifanc sydd â nam amlsynhwyraidd am fod yn bresennol yn y cyfarfod cyfan. Gallai'r profiad ddrysu neu achosi llawer o straen i rai eraill, ac efallai y byddai'n well ganddynt gadw draw. Ar y llaw arall, efallai y byddai rhai eraill yn hoffi mynychu rhan o'r cyfarfod, ei ddechrau fel rheol. Gallai hynny roi cyfle iddynt gwrdd â'r gweithwyr proffesiynol sy'n mynychu'r cyfarfod a mynegi eu safbwyntiau.
6. Os na fydd y person ifanc yn mynychu'r cyfarfod, mae'n hollbwysig bod ei safbwyntiau'n cael eu cyflwyno yn hytrach na'u tybio. Gall recordiadau fideo sy'n dangos y person ifanc yn cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau fod yn ddefnyddiol iawn os nad yw rhai o'r bobl sy'n bresennol yn adnabod y myfyriwr yn dda. Mae proffil pontio, neu gofnod arall o ddymuniadau'r person ifanc, yn well nag adroddiad llafar yn unig gan unigolyn arall.
7. Os bydd y person ifanc yn mynychu'r cyfarfod, dylid dewis ei leoliad yn ofalus. Bydd angen amgylchedd cyfarwydd ar lawer o bobl sydd â nam amlsynhwyraidd os oes disgwyl iddynt ganolbwyntio ar gael gwybodaeth newydd arall. Efallai y byddai'n fwy priodol i'r person ifanc fynychu cyfarfod a gynhelir yn ei ystafell ddosbarth neu leoliad cyfarwydd arall na chyfarfod a gynhelir mewn ystafell gyfarfod 'swyddogol' y mae prin yn mynd iddi.

8. Mae angen i'r ystafell fod yn addas hefyd ar gyfer anghenion y sawl sy'n bresennol. Os defnyddir dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain/cyfieithwyr er enghraifft, rhaid bod digon o le iddynt weithio'n gyfforddus. Bydd angen amodau acwstig da ar bobl sydd â nam ar eu clyw. Dylai'r amgylchedd gweledol fod yn addas i anghenion y sawl sy'n bresennol – er enghraifft, dylid ceisio atal golau rhag adlewyrchu oddi ar wynebau gloyw desgiau.

9. Dylid galluogi'r person ifanc i eistedd mewn man lle mae'n teimlo'n gyfforddus ac yn teimlo'i fod yn cael ei barchu, ac wrth ymyl rhywun y mae'n ymddiried ynddo. Gorau oll os yw'r person hwnnw'n rhywun heblaw un o'i rieni, oherwydd bydd angen i'r rhieni allu canolbwyntio ar y drafodaeth.

10. Bydd cyfathrebu a dilyn yr hyn y mae pobl eraill yn ei ddweud mewn grŵp mawr yn flinedig iawn i'r rhan fwyaf o bobl sydd â nam amlsynhwyraidd, p'un a ydynt yn defnyddio dehonglydd/cyfieithydd ai peidio. Bydd angen seibiant arnynt yn aml, ynghyd â chyfle i adolygu unrhyw beth y maent wedi'i golli neu heb ei ddeall.

11. Yn achos rhai pobl ifanc sydd â nam amlsynhwyraidd, bydd angen crynhoi prif bwyntiau'r hyn a ddywedwyd a'u cyflwyno gan ddefnyddio arwyddion neu symbolau. Gall hynny gymryd amser, yn enwedig os defnyddir symbolau, ond bydd paratoi cyn y cyfarfod yn fodd i adnabod llawer o'r geiriau sy'n debygol o gael eu defnyddio.

12. Efallai y bydd angen amser ar y person ifanc a'i rieni ar ôl y cyfarfod i ystyried yr hyn a ddywedwyd a gofyn am fwy o wybodaeth efallai, cyn gwneud unrhyw benderfyniadau.

13. Yn ogystal â chopi o'r Cynllun Pontio llawn, dylai'r teulu gael copi o'r Cynllun ar ffurf sy'n hwylus i'r person ifanc neu gopi o'i brif bwyntiau, os yw hynny'n briodol. Dylai'r Cynllun Pontio:

    - gynnwys manylion am gryfderau'r person ifanc a'r modd y gellid eu datblygu, a manylion am feysydd angen;
    - ymdrin â'r camau gweithredu sydd eu hangen i baratoi'r person ifanc ar gyfer bod yn oedolyn, gan gynnwys trefnu cysylltiadau ag asiantaethau allanol a nodi'r sgiliau neu'r cysyniadau y dylid eu haddysgu yn yr ysgol;
    - pennu targedau clir, a nodi pwy fydd yn cymryd pa gamau gweithredu pryd;
    - nodi pa gyswllt fydd gan y Cynghorydd Gyrfaoedd â'r person ifanc a'i deulu.

Sense Cymru
Tŷ Penderyn
26 Stryd Fawr
Merthyr Tudful
CF47 8DP
Ffôn: 0845 127 0090
Ffacs: 0845 127 0091
Ffôn testun: 0845 127 0092
E-bost: cymruenquiries@sense.org.uk
Gwefan: www.sense.org.uk

Sense
101 Pentonville Road
London N1 9LG
Ffôn: 0845 127 0060
Ffacs: 0845 127 0061
Ffôn testun: 0845 127 0062
E-bost: info@sense.org.uk
Gwefan: www.sense.org.uk

Rhif elusen gofrestredig: 289868 Cwmni cyfyngedig drwy warant

Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr. Rhif y cwmni: 1825301

Noddwr: Ei Mawrhydi'r Dywysoges Frenhinol